Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru

RHEOLI

Tachwedd 2018

Cadw

Datganiad o Ddiben

Mae *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru* yn rhestru'r egwyddorion cyffredinol y dylid cadw atyn nhw wrth reoli a gwneud newidiadau i henebion cofrestredig. Mae'n esbonio sut i wneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r perchennog a Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.

Prif gynulleidfa'r canllaw hwn o'r arferion gorau yw perchenogion, meddianwyr a rheolwyr henebion cofrestredig. Mae'n esbonio'r hyn y mae bod yn berchen ar heneb yn ei olygu, sut mae gofalu amdani a ble i fynd am help. Dylai hefyd helpu perchenogion, meddianwyr a rheolwyr i ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (*Egwyddorion Cadwraeth*)[1] er mwyn rheoli henebion mewn ffordd sensitif.

Mae'r arferion rheoli a chynnal a chadw a ddisgrifir yn y canllaw hwn yn addas ar gyfer pob heneb, p'un a yw wedi'i chofrestru neu beidio. Bydd *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru* yn ddefnyddiol felly i bawb sydd am ddeall amgylchedd hanesyddol Cymru a gofalu amdano.

Dylai awdurdodau penderfynu ddefnyddio'r canllaw hwn law yn llaw â *Pholisi Cynllunio Cymru,*[2] *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*[3] ac Egwyddorion Cadwraeth Cadw i lywio'u polisïau a'u cyngor eu hunain a'r broses statudol o wneud penderfyniadau.

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
Ebost: cadw@llyw.cymru

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2018
ISBN Digidol 978-1-78964-203-2
OGL © Hawlfraint y Goron 2018, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle nodir yn wahanol. WG36197

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Llun Clawr: Siambr gladdu Caer-Dynni gyda Chastell Cricieth yn y cefndir. Mae'r ddwy heneb wedi'u cofrestru yn safleoedd o bwys cenedlaethol (© Hawlfraint y Goron (2018) Croeso Cymru).

Cynnwys

Ffeithiau Cyflym

Cyflwyniad

1 Deall eich Heneb Gofrestredig

1.1 Arwyddocâd

1.2 Lleoliad

1.3 Ffynonellau Gwybodaeth a Chyngor

2 Rheoli'ch Heneb Gofrestredig

2.1 Cynnal a Chadw'ch Heneb Gofrestredig

2.1.1 Henebion sy'n Wrthgloddiau

2.1.2 Adeiladau

2.2 Atgyweirio

2.3 Adfer ac Ailadeiladu

2.4 Ymchwiliadau Archaeolegol — Cynnal Arolygon a Chloddio

2.4.1 Cynnal Arolygon

2.4.2 Cloddio

2.4.3 Adroddiadau a Chyhoeddiadau

2.5 Defnyddio Synhwyrydd Metel

2.6 Mynediad i'r Cyhoedd a Dehongli

2.7 Trawsgydymffurfio a Mesurau i gadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)

2.8 Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol

2.9 Grantiau

3 Y Broses Gydsynio ar gyfer Henebion Cofrestredig

3.1 Beth yw Cydsyniad Heneb Gofrestredig?

3.1.1 Cydsyniad Heneb Gofrestredig

3.1.2 Cydsyniad Adran 42

3.1.3 Cydsyniadau Dosbarth

3.1.4 Cliriad Henebion Cofrerstredig

3.2 Gofyn am Gyngor cyn Gwneud Cais am Gydsyniad

3.3 Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chydsyniad Adeilad Rhestredig

3.4 Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chaniatâd Cynllunio

3.5 Sut i wneud cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig

3.5.1 Y Broses Gydsynio Syml

3.5.2 Cydsyniad Adran 42

3.6 Sut mae Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig yn cael eu hasesu

3.7 Amodau Cydsyniad

3.8 Gwneud y Gwaith ar ôl cael Cydsyniad

3.9 Difrod a Gwaith heb ei awdurdodi

3.10 Hysbysiadau Stop Dros Dro

3.11 Hysbysiadau gorfodi mewn perthynas â Henebion Cofrestredig

3.12 Pwerau Mynediad

Atodiadau

Atodiad 1: Gorchymyn Henebion Hynafol (Cysdyniadau Dosbarth) 1994

Atodiad 2: Gwerthoedd Treftadaeth

Cyfeiriadau

Rhagor o Wybodaeth

Cysylltiadau

Ffeithiau Cyflym ¬

1 **Mae bron 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, yn amrywio o ogofâu sydd â'r dystiolaeth hynaf o anheddu gan bobl i olion diwydiannol a milwrol o'r ugeinfed ganrif.**

2 **Mae henebion cofrestredig yn adnodd amhrisiadwy i'w coleddu a'u diogelu er lles cenedlaethau'r dyfodol.**

3 **Bydd henebion yn cael eu cofrestru pan gredir eu bod o bwys cenedlaethol.**

4 **O ddeall arwyddocâd eich heneb gofrestredig, byddwch yn gallu ei rheoli'n well a gofalu amdani'n well.**

5 **Bydd angen ichi wybod lleoliad a manylion yr holl henebion cofrestredig ar eich tir, a deall ble mae'r ardaloedd cofrestredig.**

6 **Mae henebion cofrestredig yn cael eu gwarchod gan y gyfraith sy'n golygu fwy na thebyg y bydd angen cydsyniad heneb gofrestredig arnoch i wneud unrhyw waith arnynt.**

7 **Mae caniatâd o'r enw 'cydsyniad dosbarth' yn caniatáu ichi gynnal rhai arolygon a gweithgareddau rheoli heb orfod gofyn am gydsyniad heneb gofrestredig.**

8 **Mae'n drosedd gwneud gwaith sy'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol heb gael cydsyniad heneb gofrestredig.**

9 **Rhaid ichi beidio â defnyddio synhwyrydd metel ar heneb gofrestredig sydd ar dir neu o dan ddŵr heblaw fel rhan o brosiect archaeolegol awdurdodedig.**

10 **Os oes angen caniatâd cynllunio arnoch ar gyfer gwaith ar heneb gofrestredig neu ar ei lleoliad, bydd angen ichi wnheud cais am gydsyniad heneb gofrestredig hefyd.**

Cyflwyniad ¬

Ers miloedd o flynyddoedd, mae'r bobl sydd wedi byw a gweithio yng Nghymru wedi gadael eu hôl ar y tir. Mae tystiolaeth ohonynt i'w gweld ym mhobman o'n cwmpas ar ffurf safleoedd archaeolegol a henebion hanesyddol, rhai ohonyn nhw'n weladwy, eraill ynghudd o dan y ddaear. Ni all dim cymryd lle'r olion hyn ac maen nhw'n ffynhonnell unigryw o wybodaeth am y gorffennol. Ar gyfer pobl nad oes gennym gofnod o'u hanes, safleoedd archaeolegol a henebion hanesyddol yn aml yw'r unig bethau sydd gennym i ddeall pwy oedden nhw a sut roedden nhw'n byw. Gyda'i gilydd, maen nhw'n rhan o'n hamgylchedd hanesyddol.

Mae'r safleoedd hyn yn cyfoethogi'n hamgylchedd, yn cyfrannu at ein hunaniaeth genedlaethol ac yn ddolen rhwng y presennol a'r gorffennol. Maen nhw'n dangos inni o ble rydyn ni'n dod, yn ein hatgoffa ni am bobl a digwyddiadau'r gorffennol ac yn ein helpu i ddeall ein lle yn y byd heddiw. Maen nhw hefyd yn gefndir i'n bywydau pob dydd ac yn sbardun i'n hiechyd a'n lles, i'n dysg ac i dwristiaeth a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.[4] Rydyn ni am goleddu'n safleoedd hanesyddol a'u trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol er mwyn iddyn hwythau hefyd gael gweld, deall a gwerthfawrogi'n gorffennol.

Pan ystyrir bod safle archaeolegol neu heneb hanesyddol yng Nghymru o bwys cenedlaethol, gellir ei chofrestru.[5] Bydd hynny'n ei hamddiffyn rhag unrhyw weithgaredd allai ei difrodi neu ei difetha. Dim ond sampl o safleoedd hanesyddol sydd wedi'u dewis yn ofalus sy'n cael eu cofrestru.[6] Er mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw cofrestru henebion o bwys cenedlaethol,[7] Cadw sy'n eu dewis mewn gwirionedd a hynny ar eu rhan.

Gall eu cofrestru warchod henebion ac olion archaeolegol o bob math ac oed. Ar hyn o bryd, mae bron 4,200 o henebion wedi'u cofrestru yng Nghymru, yn amrywio o gestyll canoloesol, bryngaerau cyn-hanesyddol a cheyrydd Rhufeinig i domenni claddu, meini hirion a safleoedd yr Ail Ryfel Byd. Mae rhai henebion cofrestredig yn adfeilion, mae rhai yn wrthgloddiau; bydd rhai heb olion gweladwy ond bod llawer o'u holion dan ddaear, ac mae rhai wedi'u boddi mewn llynnoedd neu yn y môr.[8]

Dros amser, bydd safleoedd archaeolegol a henebion hanesyddol yn newid. Maen nhw'n gallu bod yn fregus a hawdd eu difrodi gan y tywydd, traul naturiol ac effeithiau gweithgarwch pobl. Ond gyda gofal, gallwch reoli'ch heneb gofrestredig mewn ffordd gynaliadwy er lles cenedlaethau'r dyfodol. Mae Adran 2 yn esbonio'r math o waith y bydd ei angen efallai i reoli'ch heneb gofrestredig a phryd y bydd angen cael cydsyniad.

Nid yw cofrestru'n golygu na chewch chi fwrw ymlaen â pheth gwaith pob dydd ar eich heneb gofrestredig. Mae 'cydsyniad dosbarth' fel y'i gelwir yn caniatáu ichi wneud peth gwaith arolygu a rheoli heb orfod gofyn am gydsyniad heneb gofrestredig. Fodd bynnag, rhaid ichi gyflwyno cais i Cadw am gydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer nifer o weithgareddau, gan gynnwys aflonyddu ar yr heneb mewn unrhyw ffordd, gwneud gwaith cadwraeth arni, ac ar gyfer nifer o'r technegau a ddefnyddir wrth gynnal ymchwiliadau archaeolegol. Mae adran 3 yn esbonio cydsyniadau dosbarth yn fanylach a sut i ofyn am gydsyniad heneb gofrestredig.

Mae'r rhan fwyaf o berchenogion, meddianwyr a rheolwyr yn falch o'u henebion cofrestredig ac yn gofalu amdanyn nhw. Maen nhw'n sylweddoli bod eu treftadaeth werthfawr yn bwysig ac yn gwneud cyfraniad adeiladol at ei rheoli'n gynaliadwy. Mae pob un ohonom yn geidwad ar ei orffennol ac mae gennym oll ran hanfodol i'w chwarae wrth helpu i ddiogelu henebion cofrestredig at y dyfodol.

1. Deall eich Heneb Gofrestredig ¬

Safleoedd archaeolegol a henebion hanesyddol yw un o'n ffynonellau gwybodaeth pwysicaf am genedlaethau'r gorffennol. Cafodd safleoedd cyn-hanesyddol eu hadeiladu cyn dyddiau'r cofnod ysgrifenedig, a nhw yw ein *hunig* ffynhonnell wybodaeth. Mae pob adeilad, strwythur neu safle yn unigryw; mae gan bob un ei stori. Bydd tystiolaeth yn y deunyddiau a ddefnyddiwyd i godi'r heneb yn dweud pryd a sut y cafodd ei hadeiladu, sut cafodd ei defnyddio a beth ddigwyddodd iddi. Wrth astudio'r dystiolaeth, gallwn ddysgu am y bobl â'i hadeiladodd a'i defnyddio, a hefyd sut i'w chadw mewn cyflwr da. Mae'r tir o gwmpas a lleoliad heneb yn bwysig hefyd gan eu bod nhw'n gallu'n helpu i ddeall mwy am y safle ei hun (gweler adran 1.2).

Mae henebion cofrestredig yn wahanol i adeiladau rhestredig yn yr ystyr eu bod fel arfer yn adfeilion neu wedi'u claddu ac nad oes ganddynt fawr o werth economaidd uniongyrchol i'r perchennog. Maen nhw'n bwysig oherwydd eu hanes a'r dystiolaeth archaeolegol allai fod wedi'i chladdu ynddyn nhw neu oddi tanynt. Er enghraifft, gallai rhannau sydd wedi'u cwympo ddweud wrthym sut olwg oedd ar yr adeilad gwreiddiol a sut y byddai defnydd ac amser wedi'i newid.

Wrth i dechnegau archaeolegol a gwyddonol wella, rydyn ni'n gallu adfer gwybodaeth fanylach i ddatgelu gwirioneddau bydoedd coll. Gall gronynnau mân, fel paill ac olion planhigion, ddangos inni sut roedd yr hinsawdd a'r amgylchedd yn y gorffennol. Gall dadansoddi gwaddodion mewn potiau ddweud wrthym beth oedd pobl yn ei fwyta, a thrwy archwilio sgerbydau, gellir dweud pa mor iach oedd y bobl a sut y bu iddyn nhw fyw a marw.

Mae'n bwysig ein bod yn diogelu'r dystiolaeth archaeolegol werthfawr hon. Mae hyn yn golygu bod gwaith cynnal a chadw a rheoli pob dydd yn hanfodol i ofalu am eich heneb gofrestredig. Trwy ddeall eich heneb gofrestredig, gallwch gynllunio rhaglen reoli briodol fydd yn ei chadw mewn cyflwr da at y dyfodol. Gall Cadw gynnig help a chyngor ynghylch sut orau i ofalu am eich heneb gofrestredig (gweler adrannau 1.3, 2.7, 2.8 a 2.9).

1.1 Arwyddocâd ¬

Byddwch yn gallu gofalu am eich heneb gofrestredig yn well o ddeall pam mae hi o bwys genedlaethol a beth sy'n arwyddocaol amdani. Trwy gofrestru heneb, rydych yn diogelu'r safle cyfan, gan gynnwys unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud iddi wedyn. Mae hyn

yn golygu ei bod yn bwysig deall yn iawn beth sy'n arbennig am eich heneb gofrestredig cyn ichi wneud unrhyw beth iddi allai ei difrodi.

Byddai'n syniad da felly ichi lunio datganiad arwyddocâd i grynhoi'r hyn rydych yn ei ddeall am eich heneb gofretredig ac i esbonio'i harwyddocâd i eraill. Y datganiad hwn fydd y man cychwyn ar gyfer rheoli, dehongli ac unrhyw gynnig i'w newid neu geisiadau am gydsyniad. Dylai'r datganiad gynnwys disgrifiad bras o'ch heneb gofrestredig a chrynodeb o'i gwerth hanesyddol. Bydd canolbwyntio ar ei gwerth fel ased hanesyddol yn eich helpu i ddadansoddi'i harwyddocâd:

- Gwerth fel tystiolaeth: y graddau y mae'r dystiolaeth ffisegol yn dweud wrthym sut a phryd y cafodd eich heneb gofrestredig ei chreu, sut y cafodd ei defnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gallai fod elfennau i'r heneb gofrestredig sydd ynghudd neu wedi'u claddu, a gallai'r rheini hefyd fod yn dystiolaeth bwysig. Gweler Atodiad 2 am enghreifftiau o bethau sydd o werth fel tystiolaeth.
- Gwerth hanesyddol: gallai'ch heneb gofrestredig ddarlunio agwedd benodol ar fywyd y gorffennol neu gallai fod yn gysylltiedig â pherson, digwyddiad neu fudiad penodol; gallai fod tystiolaeth ffisegol o'r cysylltiadau hyn sy'n bwysig i'w cadw.
- Gwerth esthetig: dyluniad, adeiladwaith a chrefftwaith eich heneb gofrestredig. Gall olygu ei lleoliad a'r golygfeydd sydd i'w gweld ohoni a thuag ati, a allai fod wedi newid dros amser.
- Gwerth i'r gymuned: gallai fod arwyddocâd i'ch heneb gofrestredig oherwydd ei gwerth cofiannol, symbolaidd neu ysbrydol, neu oherwydd ei rhan mewn bywyd diwylliannol neu gyhoeddus.

Gallwch ddysgu mwy am y gwerthoedd hyn yn *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*[9] ac yn Atodiad 2.

1.2 Lleoliad ¬

Mae'r gair lleoliad yn ymwneud â'r tir o gwmpas eich heneb gofrestredig lle mae'n cael ei deall, ei phrofi a'i gwerthfawrogi, gan gynnwys ei pherthynas â'r dirwedd o'i chwmpas yn awr ac yn y gorffennol. Pwysigrwydd lleoliad yw ei gyfraniad at arwyddocâd eich heneb gofrestredig.

Rhywbeth gweledol yw lleoliad gan fwyaf, ond gall gynnwys nodweddion eraill fel llonyddwch neu natur ddiarffordd. Nid yw'n rhywbeth sefydlog a gall newid wrth i'r heneb a'r tir o'i chwmpas esblygu. Gall lleoliad heneb gofrestredig gynnwys elfennau ffisegol y tir o'i chwmpas, ei pherthynas â nodweddion hanesyddol, naturiol a thopograffig eraill a'i pherthynas ehangach â'r dirwedd a'i hamlygrwydd yn y dirwedd honno.

Dyma enghreifftiau o leoliad:

- Mae tomenni claddu'r Oes Efydd i'w gweld yn aml mewn clystyrau gwasgarog, y gellir eu gweld o domenni neu glystyrau eraill. Maen nhw'n gysylltiedig hefyd â meini hirion a henebion defodol eraill.

- Yn niwedd yr Oes Haearn cyn-hanesyddol, câi bryngaerau mawr o wrthgloddiau eu codi ar fannau amlwg ar gopaon bryniau. Hyd yn oed heddiw, filoedd o flynyddoedd yn ddiweddarach, maen nhw'n gallu dominyddu'r dirwedd ac yn amlwg o filltiroedd.
- Mae safleoedd milwrol, fel cestyll, ceyrydd Rhufeinig neu gaerau tanddaearol mwy diweddar o'r Ail Ryfel Byd, yn datgelu safleoedd tactegol clir yn y dirwedd gan roi golygon sy'n hanfodol i ddeall eu pwrpas.
- Gall perthynas swyddogaethol henebion cofrestredig â'i gilydd gynnwys cysylltiadau rhwng elfennau gwahanol safleoedd diwydiannol sy'n dangos y prosesau a ddefnyddir i ganfod, prosesu a chludo deunydd crai a chynnyrch gorffenedig.

Mae'n bwysig cofio nad i henebion cofrestredig sydd â rhannau yn y golwg yn unig y mae lleoliad yn berthnasol; mae gan safleoedd dan ddaear eu lleoliad hefyd. Nid yw fila Rufeinig, â'i holion wedi'u claddu dan gae, wedi'i lleoli ar hap. Byddai hi wedi bod yn ganolbwynt fferm Rufeinig. I ddeall sut y byddai wedi gweithio, rhaid deall y dirwedd roedd yn gweithio ynddi a byddai'i thopograffi wedi bod fel ag y mae heddiw. Byddai'r cysylltiadau â'r cyflenwadau dŵr lleol, yn enwedig y rheini a fyddai wedi bwydo baddondy cynnes y fila a'i system wresogi danlawr, wedi bod yn neilltuol o berthnasol.

Mae llyfryn Cadw, *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* yn esbonio mwy am leoliad a'i gyfraniad at arwyddocâd eich heneb gofrestredig.[10]

1.3. Ffynonellau Gwybodaeth a Chyngor ¬

Mae llawer o ffynonellau gwybodaeth i'ch helpu i ddeall eich heneb gofrestredig a'i harwyddocâd. Mae Cof Cymru,[11] map rhyngweithiol ar-lein Cadw, yn rhoi disgrifiad byr o bob heneb gofrestredig yng Nghymru. Gallwch ei ddefnyddio i wybod lleoliad a manylion yr holl henebion cofrestredig ar eich tir, a deall hyd a lled yr ardaloedd cofrestredig.

Gall canllawiau ar-lein a dogfennau eraill Cadw fod yn ddefnyddiol hefyd.[12]

Cewch gofnod o'ch amgylchedd hanesyddol lleol ar wefannau un o bedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru; mae Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn cael ei gadw gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru; ac mae archifdy a swyddfeydd cofnodion eich awdurdod lleol ac amgueddfeydd yn ffynonellau gwybodaeth da hefyd.

Mae gan Cadw dîm o arolygwyr henebion a wardeiniaid henebion maes sydd ar gael i ateb eich cwestiynau a rhoi gwybodaeth a chyngor rheoli ichi. Mae wardeiniaid henebion maes yn ymweld â phob heneb gofrestredig yng Nghymru ar raglen dreigl i gofnodi'u cyflwr. Byddan nhw'n cysylltu â chi cyn yr ymweliad a byddan nhw wastad yn falch i drafod eich heneb, ei harwyddocâd a'r hyn sydd ei angen i ofalu amdani. Ar ôl yr ymweliad, gallwch ofyn i'r warden henebion maes roi adroddiad byr ichi all gynnwys syniadau i'ch helpu i wella cyflwr eich heneb. Os oes gennych bryderon am eich heneb gofrestredig ac y carech i warden henebion maes fwrw golwg arni, cysylltwch â Cadw.

Rydym wedi nodi manylion cysylltu â'r holl ffynonellau gwybodaeth hyn ar ddiwedd y canllaw hwn.

2. Rheoli'ch Heneb Gofrestredig ¬

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn awyddus i ofalu am yr henebion cofrestredig sydd o dan eu gofal er mwyn iddynt gael eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Yn aml, gall rheoli fod yn fater syml o osgoi gweithgarwch a allai achosi difrod ond, weithiau, mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau penodol i'w rheoli er mwyn arafu neu osgoi effeithiau dirywiad naturiol.

Bydd angen ichi ofalu nad ydych yn gwneud unrhyw waith a allai ei difrodi nac unrhyw newidiadau a allai effeithio arni hi neu ar ei lleoliad heb gael caniatâd priodol yn gyntaf. Gallai'r newidiadau hynny gynnwys newidiadau i wella'ch heneb gofrestredig, newidiadau anfwriadol a'r rheini allai gael effaith andwyol arni. Os oes angen gwneud newidiadau, ystyriwch y cyngor perthnasol a gofynnwch am y cydsyniad sydd ei angen arnoch cyn dechrau ar y newidiadau.

Mae henebion cofrestredig fel arfer yn adfeilion, yn olion archaeolegol o dan ddaear neu'n wrthgloddiau. O'r herwydd, maen nhw'n sensitif iawn i rymoedd erydu naturiol, dadfeiliant a difrod anfwriadol. Mae llawer o'r henebion cofrestredig ar dir fferm neu mewn cefn gwlad agored, ac mae'r cyhoedd yn ymweld â llawer ohonyn nhw. Gall pob un dioddef oherwydd traul, ond o'u rheoli'n ofalus, mae'n bosibl ichi reoli'ch heneb gofrestredig mewn ffordd gynaliadwy fydd yn caniatáu ichi ei throsglwyddo mewn cyflwr da i genedlaethau'r dyfodol.

Bydd y ffordd y dylech fynd ati i reoli'ch heneb gofrestredig yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- pa fath o heneb yw hi
- pa ddefnydd sy'n cael ei gwneud ohoni nawr
- ei chyflwr
- p'un a yw'n dangos arwyddion o ddirywiad.

Os yw'n heneb fawr neu gymhleth, efallai y byddai'n syniad da ichi lunio cynllun rheoli cadwraethol i'ch helpu â'ch penderfyniadau. Mae cynlluniau o'r fath yn arbennig o ddefnyddiol os oes gennych heneb gofrestredig sy'n adfail neu heneb sy'n cael ei rhedeg fel atyniad i ymwelwyr. Yn aml, os ydych yn gofyn i Cadw neu Gronfa Dreftadaeth y Loteri am grant, gofynnir ichi baratoi cynllun rheoli cadwraethol.[13]

Mae cynllun rheoli cadwraethol yn brawf eich bod yn deall eich heneb gofrestredig a'i harwyddocâd. Mae'n gynllun ar gyfer rheoli'r safle cyfan dros y tymor hir i'ch helpu i osgoi newidiadau amhriodol ac anfwriadol. Dylai'ch cynllun gynnwys datganiad arwyddocâd, dylai nodi'r risgiau posibl a phresennol a dylai chwilio am gyfleoedd i wella'r heneb. Arbenigwyr cymwys,[14] yw'r bobl orau i baratoi cynlluniau rheoli cadwraethol, yn enwedig ar gyfer henebion cymhleth.

Ar gyfer henebion llai, gallai cynllun symlach, sy'n seiliedig ar egwyddorion y cynllun rheoli cadwraethol, fod yn ddefnyddiol iawn.

Ym mhob achos, dylai cynlluniau rheoli cadwraethol fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y safle. Mae hynny'n golygu nad oes angen iddyn nhw o reidrwydd fod yn hir nac yn ddrud i'w paratoi, a gellir defnyddio'r wybodaeth ynddyn nhw yn sail ar gyfer asesu effaith y gwaith arfaethedig.

Mae'n bosibl bod lleoliad eich heneb gofrestredig yn ymestyn heibio i ffiniau'ch eiddo. Dylai'r datganiad arwyddocâd roi ystyriaeth i'r mannau hynny yn ogystal ag i rannau o'r lleoliad sy'n eiddo ichi. Os bydd newidiadau arfaethedig sydd o fewn ffin yr heneb gofrestredig yn effeithio ar ei lleoliad, ymdrinnir â'r mater drwy'r broses cydsyniad heneb gofrestredig (gweler adran 3).[15] Os bydd newidiadau arfaethedig y tu allan i ffin yr heneb gofrestredig yn effeithio ar ei lleoliad, ymdrinnir â'r mater hwnnw drwy'r broses caniatâd cynllunio arferol (gweler adran 3.4).

Pa fath bynnag o gynllun rheoli sydd gennych, mae'n bwysig ystyried effaith y gwaith sydd gennych dan sylw ar arwyddocâd eich heneb gofrestredig cyn dechrau'r gwaith hwnnw. Dylech fod yn ymwybodol yn arbennig o effaith gronnus bosibl nifer o newidiadau mân a fyddai, o'u hystyried bob yn un, yn ddi-nod iawn. Mae asesiad o'r effaith ar y dreftadaeth yn broses ddefnyddiol i weld effaith bosibl unrhyw waith dan sylw.[16]

Yn ogystal â dirywiad naturiol, mae gwaith amhriodol yn gallu difrodi henebion cofrestredig. Am hynny, rhaid gofyn i Cadw am gydsyniad heneb gofrestredig i gynnal rhai mathau o waith. Mae'n drosedd cynnal gwaith gwaharddedig heb gydsyniad heneb gofrestredig felly mae'n bwysig iawn deall beth sydd ei angen.

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio rhai agweddau ar reoli henebion cofrestredig ac yn esbonio pryd y bydd angen cydsyniad heneb cofrestredig. Mae'n dilyn adran 'Egwyddorion Cadwraeth ar Waith' llyfryn *Egwyddorion Cadwraeth* Cadw.[17]

2.1 Cynnal a Chadw'ch Heneb Gofrestredig ¬

Hanfod gwaith cadwraeth da er lles eich heneb gofrestredig yw rhaglen o waith cynnal a chadw rheolaidd a phriodol.

Mae'r rhan fwyaf o henebion cofrestredig yn adfeilion, yn safleoedd archaeolegol neu'n wrthgloddiau ac maen nhw'n siŵr o ddioddef rhyw lefel o ddadfeiliant. Er y gall cyflymder y dirywiad amrywio'n fawr, o ddirywiad y gallwch ei weld bob blwyddyn i newid na allwch prin ei weld o gwbl, y peth pwysicaf y gallwch ei wneud fwy na thebyg i ddiogelu'ch heneb gofrestredig yw archwilio'i chyflwr yn rheolaidd a chymryd camau priodol pan fydd angen.

A siarad yn gyffredinol, y prif fygythiad yw'r elfennau naturiol, llystyfiant goresgynnol neu'r gorddefnydd neu'r defnydd amhriodol o dir. Bydd ambell fygythiad y tu allan i'ch rheolaeth, fel erydiad neu dirlithriadau ar yr arfordir ond mae modd rheoli peryglon eraill yn rhwydd, fel walydd sy'n dadfeilio oherwydd coed.

Mae Cadw wedi paratoi nifer o ganllawiau i helpu perchenogion i ddeall sut orau i reoli a gofalu am wahanol fathau o henebion cofrestredig, fel *Gofalu am Henebion ar y Fferm, Gofalu am Dreftadaeth yr Arfordir, Gofalu am Safleoedd Milwrol yr Ugeinfed Ganrif* a *Gofalu am Fryngaerau a Ffermdai*. Maen nhw i gyd ar gael am ddim ar wefan Cadw.[18]

2.1.1 Henebion sy'n Wrthgloddiau ¬

Mae llawer o henebion cofrestredig yng Nghymru yn wrthgloddiau. Maen nhw'n amrywio o glosydd, bryngaerau a thomenni claddu cyn-hanesyddol, gwersylloedd cyrch y Rhufeiniaid, Clawdd Offa, amddiffynfeydd y Rhyfel Cartref a nodweddion llawer mwy diweddar fel incleiniau tramffyrdd diwydiannol a safleoedd milwrol y Rhyfel Oer. Mae rhai'n weladwy, fel twmpathau a chodiadau pridd ac eraill yng nghudd, fel olion archaeolegol dan ddaear ond maen nhw i gyd yn sensitif iawn i erydiad a difrod gan bobl, anifeiliaid neu brosesau naturiol.

Rheol y fawd wrth gynnal a chadw gwrthgloddiau yw lleia'n y byd o waith wnewch chi, gorau'n y byd. Dylech annog tyfiant da o borfa a rhwystro prysgwydd, rhedyn a choed. Dylech dorri tyfiant goresgynnol at y bon a'i adael i bydru yn y fan a'r lle, er efallai y bydd angen defnyddio chwynladdwr i gael gwared arno'n barhaol. Os felly, efallai y byddai'n briodol ei ailblannu â phorfa neu lystyfiant arall sy'n gorchuddio'r tir. Lle bo'r coed wedi tyfu'n fawr ar heneb, bydd y gwreiddiau eisoes wedi gwneud llawer o ddifrod. Os felly, daw'r perygl mwyaf o'r difrod y gall gwreiddiau coeden sy'n cwympo ei wneud i'r olion archaeolegol. Byddai'n well torri coed peryglus neu sy'n marw cyn i hyn ddigwydd.

Os yw'ch heneb gofrestredig yn cynnwys tir o dan goed ac os ydych am wneud gwaith ar y coed, mae'n bwysig torri'r coed yn ofalus rhag difrodi'r heneb. Er enghraifft, dylech gynllunio llwybrau cludo a mannau storio fel na fydd angen i gerbydau deithio dros wrthgloddiau. Weithiau, bydd yn rhaid wrth fesurau amddiffyn eraill fel matiau tocion i rwystro olwynion cerbydau rhag suddo i'r pridd.

Efallai y bydd angen trwydded cwympo neu reoli coetir arnoch ar gyfer gwneud rhai mathau o waith mewn coetir. Cyfoeth Naturiol Cymru[19] sy'n gyfrifol am y trwyddedau hyn ac fe all ymgynghori â Cadw ar geisiadau am drwyddedau sy'n effeithio ar henebion cofrestredig. Os oes coed sydd wedi'u hamddiffyn gan Orchymyn Cadw Coed neu os oes statws ardal gadwraeth neu amodau cynllunio,[20] ynghlwm wrth eich heneb gofrestredig, efallai y bydd angen cydsyniad eich awdurdod lleol arnoch cyn dechrau ar y gwaith.

Gall erydu a achosir gan bobl, anifeiliaid a phrosesau naturiol effeithio'n drwm ar henebion sy'n wrthgloddiau. Gall cerbydau, da byw, prysgwydd ac anifeiliaid sy'n tyllu i gyd greu difrod cyflym a difrifol gan ddifetha gwybodaeth archaeolegol unigryw ac anadferadwy. Fodd bynnag, mae yna fesurau cymharol rhwydd y gallwch gadw atyn nhw fel cadw lefelau stocio priodol, yn enwedig mewn amodau glwyb neu sych iawn, gosod cafnau bwyd a dŵr yn bell o'r mannau archaeolegol sensitif a defnyddio dulliau isel eu heffaith i adfer y borfa, i osgoi aflonyddu ar olion dan y pridd.

Mae *Gofalu am Henebion Cofrestredig ar y Fferm* yn rhoi mwy o wybodaeth am sut i ofalu am henebion cofrestredig ac osgoi eu difrodi.[21] Gallwch hefyd gysylltu â ni i ofyn am gyngor ar sut orau i reoli henebion sy'n wrthgloddiau ac olion archaeolegol dan ddaear.

2.1.2 Adeiladau

Nid ar chwarae bach y mae cadw henebion di-do fel cestyll canoloesol neu adeiladau diwydiannol segur mewn cyflwr sefydlog a bydd angen cyfnodau o waith cadwraeth i atgyfnerthu'r gwaith maen (gweler adran 2.2). Bydd gan lawer o adeiladau rhestredig wrthgloddiau ac olion archaeolegol dan ddaear ynddyn nhw ac o'u cwmpas. Bydd angen ichi gadw hynny mewn cof wrth gynllunio gwaith cynnal a chadw.

Gallai iorwg a llystyfiant goresgynnol ar wal adfeiliedig fod yn hardd, ond gall wneud llawer o ddifrod. Gall y gwreiddiau fwrw i ddyfnder mawr i graidd y wal a gall gwynt sy'n chwythu brig y goeden weithio'r waliau hanesyddol yn rhydd. Os bydd dŵr yn ymdreiddio i'r wal, gall effaith rhewi a dadlaith ddifrodi'r morteri a'r gwaith rendro hanesyddol. Heb gymryd camau, gall y waliau ddechrau dadfeilio.

Ni ddylech rwygo'r iorwg nac unrhyw blanhigion eraill sy'n tyfu yn y wal o'u lle gan y gallai hynny sigo a difrodi'r heneb a'i gwneud yn beryglus. Yn hytrach, dylech eu torri'n ôl i'r bôn heb aflonyddu ar y gwaith maen. Er na fydd angen cydsyniad ffurfiol arnoch fel arfer i wneud hyn, byddai'n syniad da siarad â ni gyntaf ynghylch sut orau i godi tyfiant goresgynnol heb achosi rhagor o ddifrod.

Gallai trefniadau cynnal a chadw sy'n rhwystro coed a llwyni arafu'r dirywiad yn fawr a helpu i gadw'r heneb yn sefydlog.

Ni fydd angen cydsyniad heneb gofrestredig arnoch fel arfer i wneud gwaith cynnal a chadw arferol cyn belled nad yw'n golygu aflonyddu'r pridd neu adeiladwaith yr heneb. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r gweithgareddau, y risgiau a'r dulliau o gynnal a chadw'ch heneb gofrestredig ac yn esbonio a oes angen cydsyniad heneb gofrestredig arnoch er mwyn bwrw ymlaen i wneud hynny.

Tabl1 Cynnal a Chadw'ch Heneb Gofrestredig

Gweithgaredd	Y Risg	Arferion Gorau	A oes angen gwnud cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig?
Cynnal a chadw gwrthgloddiau a safleoedd archaeolegol dan ddaear			
Cadw llain porfa sefydlog	Aflonyddu'r pridd	• Lefelau pori priodol. Rheoli chwyn trwy eu torri a thargedu chwynladdwr. • Osgoi troi'r pridd rhag aflonyddu'r tir.	Nac oes
Adnewyddu'r borfa	Colli'r archaeoleg bob yn damaid.	• Gofalu nad yw'r tir yn cael ei droi'n ddyfnach na'r troeon cynt.	Oes — os nad oes gwaith o'r fath wedi'i wneud yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf. (Gweler Atodiad 1 — cydsyniad dosbarth 1).
Defnyddio cerbydau	Gall rhigolau olwynion ddadorchuddio a difrodi'r archaeoleg.	• Peidiwch â gyrru dros y safle cofrestredig. • Defnyddiwch gerbydau ysgafn neu deiars pwysedd isel, neu gerbydau trac isel eu pwysedd ar y ddaear • Gosodwch un llwybr parhaol i leihau'r effaith.	Nac oes er mwyn defnyddio cerbydau, ond, os ydych yn gosod traciau neu ffyrdd newydd, bydd angen gwneud cais am gydsyniad.
Gwaith draenio	Yn rhwystro dŵr rhag crynhoi a'r rhigoli sy'n digwydd yn sgil hynny ond gall gosod draeniau a sychu'r tir ddadorchuddio a difrodi'r archaeoleg.	• Peidiwch â gosod draeniau mewn mannau archaeolegol sensitif.	Oes

Gweithgaredd	Y Risg	Arferion Gorau	A oes angen gwnud cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig?
Rheoli prysgwydd/rhedyn	Mae'r gwreiddiau'n difrodi'r archaeoleg.	• Codwch brysgwydd trwy eu torri at eu bôn a'u trin â chwynladdwr i'w rhwystro rhag aildyfu; peidiwch â chodi'r gwreiddiau.	Nac oes, ond efallai y bydd angen trwydded neu gydsyniadau amgylchedd naturiol.
Rheoli anifeiliaid sy'n tyllu os caniateir hynny.	Yn difrodi'r archaeoleg. Gall erydu'r gwrthgloddiau a'u dymchwel.	• Rheoli niferoedd. • Codi ffens o gwmpas mannau sensitif.	Nac oes, er y bydd angen trwyddedau amgylcheddol efallai a bydd angen cyflwyno cais er mewn codi ffensys mewn ardal gofrestredig.
Ffensio	Gall aflonyddu'r archaeoleg; erydu gan stoc ar hyd y ffens.	• Peidiwch â'u codi yn y safleoedd archaeolegol. Dylech osgoi'r ardal gofrestredig os medrir.	Oes
Plannu coed a pherthi/gwrychoedd newydd	Y gwreiddiau'n gwneud difrod.	• Peidiwch â'u plannu yn y safleoedd archaeolegol. Dylech osgoi'r ardal gofrestredig os medrir.	Oes
Rheoli coed	Gall gwreiddiau ddifrodi gwrthgloddiau; mae hen goed yn fygythiad os ydyn nhw'n cwympo.	• Torrwch goed marw neu ansefydlog mewn heneb gofrestredig â llaw cyn iddyn nhw gwympo yn y gwynt a difrodi'r heneb.	Nac oes — os ydych yn eu torri at eu bôn gan adael y gwreiddiau heb aflonyddu'r pridd.
Cwympo coed a'u clirio	Perygl o daro'r heneb wrth eu symud o'r safle.	• Amddiffynnwch yr heneb gofrestredig yn ystod y gwaith; dylai llwybrau cario'r coed osgoi'r heneb gofrestredig os medrir.	Holwch Cadw ac os oes angen, Cyfoeth Naturiol Cymru a'ch awdurdod lleol.

Gweithgaredd	Y Risg	Arferion Gorau	A oes angen gwnud cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig?
Aredig tir âr	Colli'r archaeoleg sydd o dan y pridd bob yn damaid.	• Defnyddiwch y dulliau trin ysgafnaf eu heffaith ar heneb gofrestredig os nad oes unrhyw wrthgloddiau ar ôl; ystyriwch hau â dril neu beidio â thrin ardaloedd sensitif lle mae yna wrthgloddiau.	Caniateir ichi droi'r tir yn rheolaidd trwy gydsyniad dosbarth, ond mae angen gwneud cais ar gyfer gwaith i aredig yr isbridd neu ar gyfer gwaith draenio (gweler Atodiad 1 — cydsyniad dosbarth 1). Rhaid cael cydsyniad os ydych yn ei droi am y tro cyntaf.
Codi adeilad newydd neu estyniad i adeilad	Colli tystiolaeth archaeolegol trwy osod sylfeini a chysylltu gwasanaethau.	• Peidiwch ag adeiladu ar y safle cofrestredig.	Oes
Cynnal a chadw henebion o waith maen			
Rheoli coed a llwyni sy'n tyfu ar neu wrth fôn gwaith maen	Mae gwreiddiau'n tanseilio ac yn niweidio walydd.	• Torrwch y planhigyn at ei fôn a'i drin â chwynladdwr.	Nac oes (oni bai bod y gwreiddiau wedi ymdreiddio'n ddwfn ac yn eang iawn).
Rheoli planhigion dringo fel iorwg	Mae gwreiddiau'n tanseilio ac yn niweidio walydd.	• Holwch Cadw am gyngor. Torrwch ganghennau trwm neu ymledol yn ôl at lefel y wal. Peidiwch â thynnu iorwg byw o'r gwaith maen os yw ei afael yn dynn.	Nac oes
Monitro cyflwr y gwaith maen	Trwy fynd ati i atgyweirio gwaith maen cyn gynted ag y gwelir dirywiad, gellir osgoi difrod gwaeth.	• Chwiliwch am arwyddion symudiad fel craciau, boliau a cherrig wedi cwympo. Holwch Cadw am gyngor.	Nac oes
Rhwystro difrod gan dda byw	Difrod ffisegol trwy rwbio yn erbyn a thanseilio'r gwaith maen.	• Rheoli mynediad at heneb gofrestredig, er enghraifft, eu cadw allan am gyfnod.	Nac oes — oni bai bod angen ffensio'r heneb gofrestredig.

2.2 Atgyweirio ¬

Ambell waith, pan nad yw gwaith cynnal a chadw wedi atal difrod, yr unig ffordd i osgoi colli rhannau o'ch heneb gofrestredig yw trwy ei hatgyweirio. Yn wahanol i adeiladau rhestredig, lle cewch eu hatgyweirio 'tebyg am debyg' heb gydsyniad, bydd angen cydsyniad arnoch fel arfer i atgyweirio'ch heneb gofrestredig.[22]

Ni ddylech wneud mwy o waith atgyweirio nag sydd ei angen i sefydlogi a diogelu'r heneb ar gyfer y tymor hir ac i allu parhau i'w ddefnyddio. Er enghraifft, atgyweirio creithiau erydu ar wrthgloddiau ac ailbwyntio gwaith maen sy'n dadfeilio.

Gall deall y deunydd y gwnaed yr heneb ohono, y dystiolaeth hanesyddol y mae'n ei rhoi, a'i sensitifrwydd archaeolegol eich helpu i benderfynu beth i'w wneud. Cyn dechrau unrhyw waith atgyweirio, mae'n bwysig eich bod yn deall beth sy'n achosi'r difrod er mwyn delio â'r broblem ac nid y symptom.

Cadwch gymaint o'r adeiladwaith gwreiddiol â phosib. Os oes yn rhaid defnyddio deunydd newydd, dylech ei ddewis yn ofalus fel ei fod yn gydnaws â'r adeiladwaith gwreiddiol a'i fod yn gallu gwrthsefyll amodau'r amgylchedd heb fod angen ei atgyweirio'n rheolaidd.

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod y gwahaniaeth rhwng eich gwaith atgyweirio a'r heneb wreiddiol yn amlwg. Er enghraifft, gallwch osod haenen decstil ar ben gwrthglawdd cyn ychwanegu pridd neu gerrig newydd neu gallwch nodi'r ffin rhwng y gwaith maen gwreiddiol a'r gwaith atgyweirio modern trwy ddefnyddio morter gwahanol neu drwy fewnosod teils. Defnyddir llawer o dechnegau gwahanol a gall wardeiniaid henebion maes Cadw ac archwilwyr henebion roi cyngor ichi arnynt.

Wrth atgyweirio henebion cofrestredig, fel arfer bydd angen ichi gynnal rhywfaint o waith ymchwilio archaeolegol. Bydd hynny'n llywio'r gwaith ac yn cofnodi unrhyw dystiolaeth y ceir hyd iddi yn ystod yr ymchwiliad. Pobl broffesiynol â'r cymwysterau priodol ddylai gynnal ymchwiliadau archaeolegol.[23]

Mae llyfryn Cadw *Egwyddorion Cadwraeth* yn cynnig cyngor defnyddiol i'r rheini sy'n atgyweirio asedau hanesyddol.[24]

Bydd angen ichi ofyn am gydsyniad heneb gofrestredig i atgyweirio'ch heneb gofrestredig fel arfer.

2.3 Adfer ac Ailadeiladu ¬

Fel arfer ni ellir cyfiawnhau adfer nac ailadeiladu elfen o heneb gofrestredig sydd ar goll, wedi'i dinistrio neu yr adeiladwyd ar ei phen, oni bai bod hynny'n helpu i'w diogelu a/neu'n helpu'r cyhoedd i'w deall, a bod yna dystiolaeth gref o blaid gwneud hynny.

Ar gyfer henebion cofrestredig, mae adfer fel arfer yn golygu ailgreu rhannau, golwg neu swyddogaeth sydd wedi'u colli. Mae cynigion i adfer yn ymwneud amlaf â henebion

o waith maen sydd ar agor i'r cyhoedd, er mwyn helpu'r cyhoedd i'w deall a'u gwerthfawrogi, ac i'w helpu i oroesi at y tymor hir; er enghraifft, trwy ailosod to newydd ar adeilad sydd wedi adfeilio. Bydd gwaith adfer yn newid golwg heneb gofrestredig a bydd yn effeithio ar ei gwerth archaeolegol. Rhaid wrth feddwl, ymchwil a chyfiawnhad trylwyr. Hyd yn oed wrth adfer rhannau o heneb sydd wedi cwympo gan ddefnyddio'r deunydd gwreiddiol, mae'r adferiad yn adeilad newydd. Nid yw hynny'n golygu na ddylid mynd ati i adfer, dim ond bod yn rhaid i'r gwaith hwnnw fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Peidiwch â damcaniaethu sut olwg oedd ar heneb gofrestredig wrth ei hailadeiladu; nid yw'n briodol ychwaith adfer nodweddion yr adeiladwyd yn fwriadol ar eu pen yn ddiweddarach neu a gollwyd oherwydd digwyddiad hanesyddol mawr, fel ymgais fwriadol i ddymchwel rhan o gastell trwy warchae.

Bydd wastad angen gofyn am gydsyniad heneb gofrestredig i wneud gwaith adfer ac ailadeiladu.

2.4 Ymchwiliadau Archaeolegol — Cynnal Arolygon a Chloddio ¬

Mae llawer o ffyrdd i ymchwilio i'ch heneb gofrestredig, o ymchwil hanesyddol i ymchwiliad archaeolegol. Bydd angen cydsyniad heneb gofrestredig i ddefnyddio technegau fydd yn aflonyddu'r pridd neu'r gwaith maen, ond mae digonedd o bethau y gallwch eu gwneud heb gydsyniad ffurfiol. Os nad chi yw perchennog y tir, dylech ofyn caniatd y perchennog os oes angen mynd ar y tir arnoch.

Os ydych chi'n ystyried cynnal ymchwiliad i'r heneb gofrestredig, byddai'n well cysylltu â Cadw i'ch helpu i gynllunio'r ffordd orau o wneud hynny.

2.4.1 Cynnal Arolygon ¬

Nid oes angen ichi ddweud wrth Cadw ymlaen llaw os ydych am gynnal arolwg arwynebol nad oes angen cydsyniad i'w gynnal. Mae arolygon o'r fath yn cynnwys arolygon topograffig, arolygon ffotograffig, arolygon lidar (laser) ac arolygon ffotograffig o'r awyr. Ond byddai'n ddefnyddiol i Cadw gael gwybod bod gwaith o'r fath yn cael ei wneud ac i weld copi o'r canlyniadau. Dylech anfon copi hefyd at eich cofnod amgylchedd hanesyddol lleol, sy'n cael ei reoli gan un o bedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru, ac at Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.[25] Gweler yr adran gysylltiadau.

Er mwyn cynnal arolygon ymchwiliadol i chwilio am archaeoleg ac arteffactau dan ddaear a'u hadnabod, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig Cadw cyn dechrau. Mae hynny'n cynnwys arolygon geoffisegol (magnetometreg, gwrthedd, derbynnedd magnetig a radar sy'n treiddio'r ddaear) a samplu pridd. Mae'n drosedd defnyddio'r technegau hyn mewn safle cofrestredig heb gael pob caniatâd sydd ei angen. Bydd Cadw yn rhoi cydsyniad fel arfer i gynnal arolygon geoffisegol. Cydsyniad adran 42 yw enw'r cydsyniad hwn (gweler adran 3.5.2).

2.4.2 Cloddio

Er mai cloddio yw'r ffordd orau yn aml i ddysgu am y gorffennol, mae'n weithred ddinistriol ac nid ar chwarae bach y mae dechrau arni. Unwaith y bydd rhywbeth wedi'i gloddio, ni fydd modd ei roi yn ôl yn ei le ac ni fydd cyfle i genedlaethau'r dyfodol fynd yn ôl i ailwneud y gwaith. Am y rheswm hwnnw, rhaid i geisiadau am gydsyniad i gloddio henebion cofrestredig ddangos bod y manteision o gael gwybodaeth newydd yn debygol o fod yn fwy na'r difrod a achosir gan y cloddio.

Rhaid sicrhau bod gan brosiectau cloddio y staff cymwys a'r adnoddau ariannol i weithio at y safonau uchaf. Rhaid i bob prosiect cloddio ar heneb gofrestredig gadw at y canllaw ar arferion gorau a baratowyd gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA).[26] Rhaid i ddyluniad yr ymchwil esbonio pam mae angen cloddio'r heneb a cheisio cadw'r aflonyddu mor fach â phosibl, gan ddilyn cyngor yr *Egwyddorion Cadwraeth*.[27]

byddwch yn cynnal gwaith cloddio, bydd angen ichi drefnu bod yr archif archaeolegol yn cael ei rhoi i gadw'n ddiogel mewn amgueddfa gofrestredig yn unol â chanllawiau cenedlaethol[28] fel ei bod ar gael i'w hastudio yn y dyfodol.

2.4.3 Adroddiadau a Chyhoeddiadau

Pan fydd Cadw yn rhoi cydsyniad i gynnal ymchwiliad, rhaid gofalu bod y canlyniadau ar gael i'r cyhoedd eu gweld trwy roi copi o'r adroddiad terfynol i'ch cofnod amgylchedd hanesyddol lleol ac i Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Bydd hynny'n fodd i wneud yn siŵr fod pawb yn cael elwa ar yr wybodaeth newydd am yr heneb. Byddem hefyd yn annog yr ymchwilwyr i gyhoeddi'u canlyniadau mewn cyfnodolion a llyfrau addas.

Bydd wastad angen gofyn am gydsyniad heneb gofrestredig i wneud gwaith cloddio. Bydd angen cydsyniad adran 42 i gynnal arolwg geoffisegol.

2.5 Defnyddio Synhwyrydd Metel

A siarad yn gyffredinol, nid yw synwyryddion metel yn addas i'w defnyddio ar henebion cofrestredig. Hynny am fod y dechneg yn gallu achosi difrod mawr trwy balu tystiolaeth archaeolegol i godi arteffactau a mynd â'r darganfyddiadau hynny o'u cyd-destun archaeolegol. Mae pob darganfyddiad sy'n gysylltiedig â heneb gofrestredig yn cyfrannu'n uniongyrchol at werth y dystiolaeth amdani. Felly, bydd cymryd y darganfyddiadau yn effeithio'n uniongyrchol ar arwyddocâd yr heneb. O'r herwydd, mae'n drosedd defnyddio synhwyrydd metel ar henebion cofrestredig heb gael cydsyniad ysgrifenedig Cadw ymlaen llaw.[29] Mae hynny'n wir am ddefnyddio synhwyrydd metel ar y tir ac o dan ddŵr.

Gellir rhoi caniatâd ar ffurf cydsyniad adran 42 (gweler adran 3.5.2). Fodd bynnag, a siarad yn gyffredinol, dim ond yn ystod ymchwiliadau archaeolegol ffurfiol y caniateir defnyddio synwyryddion metel. Bydd amodau'n cael eu gosod megis cyflwyno adroddiad

i'ch cofnod amgylchedd hanesyddol lleol ac i Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, a threfnu bod y darganfyddiadau'n cael eu cadw a'u cofnodi (gweler adran 3.7).

Rhaid ichi ofyn cydsyniad perchennog y tir cyn defnyddio synhwyrydd metel ar ei eiddo. Bydd defnyddwyr synwyryddion metel sy'n dilyn yr arferion gorau yn osgoi safleoedd gwarchodedig a gweithgareddau allai difrodi mannau sensitif. Os bydd rhywun yn gofyn ichi am ganiatâd i ddefnyddio synhwyrydd metel ar eich heneb gofrestredig, dylech esbonio fod y safle wedi'i gofrestru a bod angen gofyn i Cadw am gydsyniad. Os gwelwch rywun yn defnyddio synhwyrydd metel ar eich heneb gofrestredig heb eich cydsyniad, cysylltwch â'r heddlu a Cadw.

Bydd angen ichi ofyn i Cadw am gydsyniad adran 42 i ddefnyddio synhwyrydd metel ar heneb gofrestredig.

2.6 Mynediad i'r Cyhoedd a Dehongli ¬

Er nad yw'r ffaith bod heneb wedi'i chofrestru yn golygu bod gan y cyhoedd yr hawl i fynd ati, mae llawer o berchenogion yn mwynhau agor eu henebion i ymwelwyr. Gall Cadw eich helpu i wneud hyn trwy roi cyngor a help. Hefyd, efallai y carech ymuno â digwyddiadau arbennig fel y rhaglen Drysau Agored flynyddol neu'r Ŵyl Archaeoleg a drefnir gan Gyngor Archaeoleg Prydain.[30]

Gall gofalu am heneb gofrestredig y caiff ymwelwyr fynd ati ddod â boddhad mawr ac mae'n gyfle i rannu'r amgylchedd hanesyddol ag ymwelwyr o bob cwr. Mae sawl ffordd o roi gwybodaeth i ymwelwyr i'w helpu i ddeall eich heneb, o baneli a thaflenni ar y safle i dechnegau digidol fel apiau ar ffôn.

Nid yw rheoli ymwelwyr yn gorfod golygu ffensys a llwybrau ffurfiol. Mae llawer o ffyrdd creadigol o dywys ymwelwyr yn ddiogel o gwmpas y safle gan warchod a gwella'ch heneb gofrestredig ar yr un pryd. Gall caniatáu i borfa dyfu'n hir ar fannau sensitif gadw pobl draw a byddai llwybrau porfa fer yn tywys ymwelwyr i'r mannau gwylio gorau. Yn yr un modd, gall gosod paneli gwybodaeth fel nad ydyn nhw'n difetha'r olygfa ac i gyfeirio ymwelwyr o'r mannau archaeolegol sensitif yn ffyrdd hawdd o ddiogelu'r heneb.

Ar safleoedd mwy, gallech ddarparu cyfleusterau tipyn yn fwy, fel canolfan ymwelwyr. Lle medrwch, mae'n well eu codi y tu allan i'r heneb gofrestredig er mwyn lleihau eu heffaith ar yr heneb, ei harchaeoleg dan ddaear a'i lleoliad. Bydd angen meddwl yn ofalus am ddyluniad yr adeilad er mwyn iddo gydweddu â'r heneb a'i leoliad yn ogystal â bod yn hygyrch i'r holl ymwelwyr. Os ydych yn ystyried datblygiad o'r fath, cysylltwch â Cadw a'ch awdurdod cynllunio lleol yn fuan yn y broses.

Os hoffech ddysgu mwy am sut i wneud eich heneb gofrestredig yn fwy hygyrch i'r cyhoedd neu os hoffech gymryd rhan mewn Drysau Agored, cysylltwch â Cadw yn cadw@llyw.cymru.

Bydd angen ichi ofyn am gydsyniad heneb gofrestredig i osod paneli gwybodaeth, arwyddion a chyfleusterau eraill ar gyfer ymwelwyr fel llwybrau, ffensys ac adeiladau.

2.7 Trawsgydymffurfio a Mesurau i gadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) ¬

Mae gofalu am yr amgylchedd hanesyddol yn rhan bwysig o'r cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru i'r diwydiant amaeth. Os ydych yn ffermwr sydd am ymuno â Chynllun y Taliad Sylfaenol (BPS),[31] rhaid cadw at y safonau trawsgydymffurfio a GAEC.[32] Mae hynny'n cynnwys gofalu am nodweddion hanesyddol, gan gynnwys henebion cofrestredig ar eich tir, a'u diogelu rhag difrod.

Gall gwneud gwaith amaethyddol sy'n difrodi heneb gofrestredig effeithio ar eich taliadau felly mae'n bwysig ystyried y safleoedd archaeolegol y gwyddoch amdanyn nhw pan fyddwch yn datblygu'ch cynllun busnes fferm ac ystyried sut gallai'ch gweithgareddau effeithio arnyn nhw. Er enghraifft, gall gweithgareddau rheoli pridd, aredig yr isbridd, rheoli gwastraff fferm, gwaith datblygu ffermydd a chreu cynefinoedd i gyd gael effaith (gweler adran 3). Gall wardeiniaid henebion maes Cadw gynnig help a chyngor ichi.

2.8 Cynlluniau amaeth-amgylcheddol ¬

Mae cynlluniau rheoli cynaliadwy, fel Glastir,[33] yn cynnig cyfleoedd i wella cyflwr henebion cofrestredig. Gofynnir i Cadw am ei farn am geisiadau Glastir Uwch a Choetir Glastir sy'n effeithio ar henebion cofrestredig a bydd yn cynnig argymhellion rheoli. Trwy Glastir Uwch, mae llawer o berchenogion henebion cofrestredig wedi gallu gwella'u henebion, gan gynnwys atgyweirio erydiad, codi llystyfiant goresgynnol a helpu ymwelwyr i fynd i'r safle.

2.9 Grantiau ¬

I ofalu am henebion cofrestredig, efallai y bydd angen help ariannol i wneud gwaith atgyweirio a gweithgareddau rheoli eraill. Mae gan Cadw gyllideb flynyddol fach sy'n cynnig grantiau ar gyfer prosiectau i wella cyflwr henebion cofrestredig ac i helpu'r cyhoedd i fynd at yr heneb a'i deall. Bydd arolygwyr henebion cofrestredig a wardeiniaid henebion maes Cadw yn falch o gael cynnig cyngor ar y math o waith a allai fod o fudd i'ch heneb.

Gweler gwefan Cadw i gael gwybodaeth am y cynlluniau sydd ar gael ar hyn o bryd a sut i wneud cais.[34]

3. Y Broses Gydsynio ar gyfer Henebion Cofrestredig ¬

3.1 Beth yw Cydsyniad Heneb Gofrestredig? ¬

Mae'n drosedd gwneud unrhyw waith allai amharu ar heneb gofrestredig neu ar y tir o fewn heneb gofrestredig heb gael cydsyniad heneb gofrestredig.[35]

Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i nifer fawr o weithgareddau, gan gynnwys:

- unrhyw beth all arwain at ddymchwel, dinistrio neu ddifrodi unrhyw ran o heneb gofrestredig
- gwaith i gael gwared ar heneb gofrestredig
- gwaith i atgyweirio heneb gofrestredig
- newidiadau i heneb gofrestredig
- gwaith i osod arwyddion, gan gynnwys paneli gwybodaeth
- defnyddio synhwyrydd metel
- gwaith draenio / atal llifogydd
- gwaith tipio
- plannu coed
- gwaith coedwigaeth
- codi ffensys
- atgyweirio draeniau
- gwaith cloddio archaeolegol
- codi datblygiad ar heneb gofrestredig.
- aredig yr isbridd.

Mae angen cydsyniad heneb gofrestredig ar bob gwaith, gan gynnwys gwaith sy'n cael ei wneud er lles yr heneb, fel atgyweirio'r gwaith maen, llenwi creithiau erydu neu gynnal ymchwiliadau archaeolegol. Bydd angen cydsyniad hyd yn oed os mai dim ond rhan fach o safle'r heneb yr effeithir arni.[36]

Cofiwch, mae'n drosedd gwneud gwaith heb gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn dechrau unrhyw waith. Mae'n hawdd difrodi heneb yn anfwriadol, felly os nad ydych yn siŵr a oes angen cydsyniad i wneud unrhyw waith, holwch Cadw am gyngor (gweler adran 3.9).

Mae Cadw yn gweinyddu'r broses gydsynio ar ran Gweinidogion Cymru. Bydd angen cydsyniad sefydliadau eraill, fel awdurdodau cynllunio lleol (ar gyfer datblygiad newydd) a Cyfoeth Naturiol Cymru (ar gyfer materion yr amgylchedd ac adnoddau naturiol) i wneud rhai mathau o waith.

Mae'n bwysig cofio mai prif bwrpas cofrestru yw gwarchod a diogelu'r heneb gofrestredig. O'r herwydd, mae rhagdybiaeth yn erbyn rhoi cydsyniad i wneud gwaith fydd yn difrodi'r heneb gofrestredig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o geisiadau'n gofyn am gael gwneud gwaith rheoli positif.

Rydyn ni'n argymell eich bod yn cysylltu â ni cyn gynted ag y medrwch cyn cyflwyno unrhyw gais er mwyn inni allu trafod yr hyn rydych am ei wneud, eich cynghori ynghylch sut orau i'w wneud, a pha broses ymgeisio y dylech ei defnyddio.

Gellir rhoi cydsyniad mewn sawl ffordd.

3.1.1 Cydsyniad Heneb Gofrestredig

I gael cydsyniad heneb gofrestredig yn unol â gofynion Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979,[37] bydd angen ichi lenwi ffurflen gais a'i hanfon atom (gweler adran 3.5).

Fodd bynnag, ar gyfer gwaith mân a fydd naill ai'n cael effaith niwtral neu bositif ar yr heneb, caiff Cadw ddefnyddio proses gydsynio symlach nad oes angen llenwi ffurflen gais ar ei chyfer.[38] Diben y broses symlach hon yw cyflymu gwaith syml a bach nad oes dadl yn ei gylch pan fo'r perchennog/meddiannydd a Cadw yn gytûn (gweler adran 3.5.1).

3.1.2 Cydsyniad Adran 42

Ar gyfer rhai mathau o waith arolygu, mae Cadw yn rhoi caniatâd drwy roi cydsyniad adran 42 (gweler adran 3.5.2).[39]

3.1.3 Cydsyniadau Dosbarth

Ceir rhai gweithgareddau sy'n effeithio ar henebion cofrestredig nad ydynt fel arfer yn eu difrodi a gellir eu cynnal heb orfod gofyn am gydsyniad heneb gofrestredig. Rhoddir cydsyniad ar gyfer y gweithgareddau hyn yn awtomatig o dan yr hyn a elwir yn gydsyniad dosbarth.[40]

Rhestrir y gweithgareddau sy'n dod o dan gydsyniadau dosbarth yn Atodiad 1. Maent wedi'u diffinio'n fanwl ac yn bendant ac mae amodau ac eithriadau penodol ynghlwm wrthynt.

Mae cydsyniadau dosbarth yn cynnwys parhau â gweithgareddau amaethyddol neu arddwrol presennol. Er enghraifft, os cafodd y safle ei aredig yn y chwe mlynedd ddiwethaf, ni fydd angen cydsyniad heneb gofrestredig fel arfer i barhau i aredig, cyn belled nad ydych yn aredig yn ddyfnach na'r tro diwethaf. Fodd bynnag, bydd angen cydsyniad heneb gofrestredig i aredig yn ddwfn neu i droi'r isbridd.

Cydsyniad dosbarth sydd ei angen i wneud gwaith brys er lles iechyd a diogelwch, ond dim ond i gynnal y mesurau lleiaf sydd eu hangen ar unwaith rhag i rywun gael ei anafu. Gallai gynnwys tynnu meini sy'n rhydd neu sy'n hongian wedi i gerbyd daro pont neu adeilad, lle nad oes modd defnyddio mesurau eraill fel gwahardd y cyhoedd. Ym mhob achos o'r fath, dylech storio'r deunydd neu'r rhan o adeiladwaith yr adeilad mewn lle diogel a rhoi gwybod i Cadw am y digwyddiad cyn gynted ag y medrwch er mwyn ichi allu cytuno faint o waith sydd angen ei wneud ar frys. Efallai y bydd Cadw hefyd yn trefnu i arolygydd henebion cofrestredig ymweld â'r safle. Peidiwch â defnyddio cydsyniad dosbarth yn lle gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig i wneud gwaith iechyd a diogelwch sydd wedi'i gynllunio.

Os ydych am wneud unrhyw waith a allai, yn eich barn chi, fod yn waith sy'n dod o dan gydsyniad dosbarth, gofynnwch i Cadw am gyngor cyn dechrau'r gwaith. Mae'n drosedd gwneud gwaith nad yw'n dod o dan gydsyniad dosbarth heb gael cydsyniad heneb gofrestredig.

3.1.4 Cliriad Heneb Gofrestredig ¬

Os yw heneb gofrestredig yn eiddo i'r Goron, nid oes angen cydsyniad heneb gofrestredig, ond dylai adran berthnasol y llywodraeth ddilyn trefn anstatudol o'r enw cliriad heneb gofrestredig pan fydd yn cynnig gwneud gwaith ar y safle. Yr un yw'r drefn ar gyfer cael cliriad â honno ar gyfer cael cydsyniad heneb gofrestredig a rhaid i adrannau'r llywodraeth gadw at unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth gliriad o'r fath.

3.2 Gofyn am Gyngor cyn Gwneud Cais am Gydsyniad ¬

Mae'n well cysylltu â Cadw am gyngor ymlaen llaw cyn cyflwyno'ch cais am gydsyniad. Gall Cadw drafod eich gwaith arfaethedig a'ch cynghori ynghylch faint o fanylion sydd eu hangen ar y cais i osgoi unrhyw oedi diangen. Gan ddibynnu ar faint ac effaith y gwaith rydych am ei wneud, efallai y bydd angen cyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda'ch cais. Dylai hwnnw gynnwys datganiad arwyddocâd ac esboniad o effaith y gwaith ar yr arwyddocâd hwnnw a pham mae angen y gwaith. Cewch fwy o wybodaeth am asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth a datganiadau arwyddocâd oddi wrth Cadw ac yn *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*.[41]

Efallai y dylech fynd at arbenigwr am gyngor proffesiynol i'ch helpu i lunio cynigion addas ac i'ch helpu â'ch cais.

Byddai'n syniad da ichi ofyn i Cadw a'ch awdurdod cynllunio lleol a'r ymddiriedolaeth archaeolegol ranbarthol am gyngor cyn gwneud cais os ydych am ofyn am gydsyniad cynllunio ar gyfer cynnig sy'n effeithio ar heneb gofrestredig neu ar ei lleoliad.

3.3 Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chydsyniad Adeilad Rhestredig ¬

Os yw adeilad neu heneb wedi'i rhestru a'i chofrestru, bydd angen cael cydsyniad heneb gofrestredig oddi wrth Cadw yn hytrach na chydsyniad adeilad rhestredig.

3.4 Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chaniatâd Cynllunio ¬

Os oes angen caniatâd cynllunio ar y gwaith rydych am ei wneud ar heneb gofrestredig, bydd angen ichi gael caniatâd cynllunio (oddi wrth eich awdurdod cynllunio lleol) a chydsyniad heneb gofrestredig (oddi wrth Cadw). Nid yw caniatâd cynllunio ar ei ben ei hun yn ddigon i awdurdodi'r gwaith. Bydd gofyn cyflwyno'r un lefel o wybodaeth wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio llawn ag sydd ei hangen wrth wneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig. Byddai'n well cyflwyno'r ddau gais yr un pryd.

Yn ôl y canllawiau cynllunio, bydd rhagdybiaeth o blaid diogelu olion archaeolegol ffisegol o bwys cenedlaethol yn eu lle.[42] Dywedir hefyd y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried lleoliad yr heneb gofrestredig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Os bydd cais cynllunio yn cael effaith uniongyrchol ar heneb gofrestredig neu ar ei lleoliad, yna rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol holi Cadw. Ni chaiff caniatâd cynllunio ei roi (heblaw o dan amgylchiadau eithriadol) os caiff datblygiad effaith negyddol ar heneb gofrestredig neu effaith andwyol arwyddocaol ar ei lleoliad.[43]

3.5 Sut i wneud cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig

Dylech wneud cais fel arfer ar y ffurflen gais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig a welwch ar wefan Cadw.[44]

Bydd angen ichi roi digon o wybodaeth i ddangos eich bod wedi deall ac ystyried arwyddocâd yr heneb wrth ddylunio'ch rhaglen waith a sut y bydd yn effeithio ar yr heneb gofrestredig.

Dylai lefel yr wybodaeth gyfateb i faint y gwaith a'i effaith ar arwyddocâd yr heneb.

Dylai o leiaf gynnwys:

- plan a lluniadau yn dangos cyflwr yr heneb, y gwaith rydych yn ei gynnig a ble
- ffotograffau'n dangos cyflwr yr heneb
- esboniad ysgrifenedig o'ch cynnig, sut y bydd yn effeithio ar yr heneb a beth rydych am ei wneud i ddiogelu, cadw neu wella arwyddocâd yr heneb
- tystysgrif i brofi ei bod yn eiddo ichi.

Ar gyfer gwaith mawr, gofynnir ichi baratoi asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a chyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda'ch cais.[45] Dyma'r wybodaeth fydd yn sail i'r asesiad os bydd ei angen.

Caiff unrhyw un ofyn am gydsyniad heneb gofrestredig ond os bydd Cadw yn cael cais gan unrhyw un heblaw am y perchennog, bydd angen cadarnhad bod y perchennog wedi rhoi ei ganiatâd.

Bydd y broses ganiatáu lawn yn cymryd hyd at 8 wythnos, ond gall ceisiadau mwy cymhleth gymryd hyd at 13 wythnos, yn enwedig os gofynnir barn arbenigwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb.

3.5.1 Y Broses Gydsynio Syml

Os yw'r gwaith rydych yn ei gynnig yn cael effaith bositif neu niwtral ar yr heneb gofrestredig, caiff Cadw ddefnyddio'r broses gydsynio syml sy'n golygu na fydd angen ichi gyflwyno cais ffurfiol.[46] Gall y broses hon fod yn addas ar gyfer llenwi effaith erydu wrth fôn maen hir, rhoi darn byr o ffens newydd, ailosod cerrig rhydd ar ben wal neu osod plac neu arwydd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Cadw yn cytuno ar y gwaith mewn trafodaeth â chi mewn cyfarfod ar y safle. Bydd Cadw wedyn yn paratoi hysbysiad cydsynio fydd yn nodi hyd a lled a lleoliad y gwaith ac unrhyw amodau. O dderbyn yr hysbysiad, gallwch ddechrau ar y gwaith.

3.5.2 Cydsyniad Adran 42

Rhaid ichi wneud cais i Cadw am gydsyniad adran 42[47] ti ddefnyddio unrhyw offer sy'n gallu darganfod archaeoleg, metel neu fwynau o dan ddaear ar safle heneb gofrestredig.

Mae hyn yn cynnwys offer arolygu geoffisegol fel:

- magnetometreg
- gwrthedd
- radar sy'n treiddio'r ddaear.

Caiff cydsyniad ei roi fel arfer ar gyfer arolygon geoffisegol nad ydyn nhw'n aflonyddu'r safle.

Ni chaiff cydsyniad ei roi fel arfer i ddefnyddio synwyryddion metel oni bai bod yr arolwg yn rhan o ymchwiliad ehangach, a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu a chofnodi darganfyddiadau.

Rhaid i geisiadau adran 42 gynnwys:

- manylion methodoleg yr arolwg, gan gynnwys dyfnder unrhyw aflonyddu
- plan yn dangos lleoliad yr arolwg
- cadarnhad eich bod wedi cael cydsyniad y perchennog i gynnal yr arolwg.

Dylai ceisiadau i ddefnyddio synhwyrydd metel hefyd gynnwys:

- strategaeth ymchwil fanwl sy'n disgrifio sut y bydd arolwg sy'n defnyddio synhwyrydd metel yn cyfrannu at amcanion ehangach y prosiect ymchwil[48]
- sut y byddwch chi'n diogelu ac yn dadansoddi unrhyw ddarganfyddiadau, a'ch cynigion ar gyfer eu harchifo a'u cyhoeddi.

Gallwch e-bostio'ch ceisiadau am gydsyniad adran 42 at cadw@llyw.cymru

Bydd arolygwyr henebion Cadw yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion cyn rhoi'r cydsyniad.

3.6 Sut mae Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig yn cael eu hasesu ¬

Cadw fydd yn asesu'r holl geisiadau, hynny ar ran Gweinidogion Cymru. Bydd yr asesiad yn seiliedig ar yr wybodaeth y byddwch wedi'i chyflwyno ac ar yr hyn y mae Cadw'n ei wybod am yr heneb gofrestredig. Efallai y bydd arolygwyr henebion Cadw yn ymweld â'r safle i asesu effaith eich cynigion; os felly, cysylltan nhw â chi i drefnu apwyntiad. Os nad ydych wedi rhoi digon o wybodaeth i Cadw allu gwneud asesiad, gofynnan nhw am fwy o wybodaeth.

Wrth asesu ceisiadau am gydsyniad, ceir rhagdybiaeth o blaid diogelu'r heneb gofrestredig ffisegol. Mae hynny'n golygu bod rhagdybiaeth yn erbyn cynigion fydd yn newid neu'n difrodi neu a fydd yn cael effaith arwyddocaol ar leoliad yr olion.[49]

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried pob sylw wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad heneb gofrestredig neu beidio.[50] Bydd Cadw yn gyntaf yn rhoi llythyr penderfynu interim ichi, fydd yn cynnwys unrhyw amodau ar gyfer rhoi cydsyniad (gweler adran 3.7) neu'r rhesymau dros wrthod eich cais. Gallech roi mwy o wybodaeth fel ymateb i'r llythyr interim.

Gallai Cadw benderfynu cyfeirio'r achos at arolygydd annibynnol yn yr Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn gallu cynghori ar deilyngdod y cais pan nad oes cytundeb.[51] Byddai Cadw wedyn yn penderfynu ar y cais ar ran Gweinidogion Cymru gan ystyried adroddiad yr arolygydd cynllunio. Yn ymarferol, prin iawn fod angen y broses hon gan fod y rhan fwyaf o anghytundebau ynghylch amodau'r cydsyniad yn cael eu setlo'n anffurfiol trwy drafod yn uniongyrchol â Cadw.

3.7 Amodau Cydsyniad ¬

Gall Cadw roi cydsyniad ar gyfer yr holl weithgareddau yn eich cais am gydsyniad heneb gofrestredig, neu dim ond ar gyfer rhai ohonynt. Fel arfer, mae Cadw'n rhoi cydsyniad gydag amodau; diben yr amodau hynny yw atal difrod i'r heneb. Rhaid ichi gadw at unrhyw amodau wrth wneud y gwaith.

Bydd amodau nodweddiadol yn gofyn ichi gynnal rhaglen o waith archaeolegol neu o gofnodi'r archaeoleg neu adrodd arno. Pobl broffesiynol â'r cymwysterau priodol ddylai gynnal ymchwiliadau archaeolegol.[52] Gallen nhw hefyd gynnwys trefniadau i swyddogion Cadw ymweld â'r safle i fonitro hynt y gwaith. Disgwylir ichi hefyd o leiaf roi copi o unrhyw adroddiadau archaeolegol a gynhyrchir wrth gynnal y gwaith i'r cofnod amgylchedd hanesyddol lleol sydd o dan ofal yr ymddiriedolaeth archaeolegol ac i Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru fel cofnod cyhoeddus. Gweler yr adran gysylltiadau.

Os na chaiff y gwaith ei ddechrau ymhen pum mlynedd i ddyddiad rhoi'r cydsyniad, daw'r cydsyniad i ben.

Ar ôl gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch y cydsyniad, nid oes hawl apelio heblaw trwy ofyn i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol. Gallwch hawlio iawndal o dan rai amgylchiadau.[53]

3.8 Gwneud y Gwaith ar ôl cael Cydsyniad ¬

Bydd eich cydsyniad yn esbonio sut y bydd Cadw'n cadw golwg ar y gwaith ac yn sicrhau eich bod yn cadw at amodau'r cydsyniad. Gallai hynny gynnwys un neu fwy o ymweliadau gan arolygwyr henebion neu wardeiniaid henebion maes Cadw ar ddechrau, ar ganol ac ar derfyn y gwaith. Bydd nifer yr ymweliadau'n dibynnu ar gymhlethdod y gwaith a bydd Cadw'n cytuno ar y trefniadau ymarferol gyda chi ar ddechrau'r prosiect.

3.9 Difrod a Gwaith heb ei Awdurdodi ¬

Mae'n drosedd dinistrio neu ddifrodi heneb gofrestredig heb gydsyniad heneb gofrestredig.[54] Y person sy'n comisiynu neu'n gwneud y gwaith sy'n gyfrifol am osgoi difrodi heneb gofrestredig. Gellir erlyn unrhyw un a geir yn euog o ddinistrio neu o ddifrodi heneb gofrestredig.

Hefyd, mae'n drosedd gwneud gwaith heb gydsyniad heneb gofrestredig. Ni fydd peidio â gwybod am statws neu leoliad heneb gofrestredig yn amddiffyniad oni bai eich bod yn gallu profi ichi gymryd pob cam rhesymol i weld a fyddai'r gwaith yn effeithio ar heneb gofrestredig. Caniateir amddiffyniad hefyd ar gyfer gwaith y mae angen ei wneud ar

fyrder er budd iechyd a diogelwch, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu'n ysgrifenendig cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.[55]

Rhag ichi wneud gwaith heb ei awdurdodi, mae'n bwysig eich bod yn gwybod am leoliad a manylion yr holl henebion cofrestredig sydd ar eich tir, a deall hyd a lled y tir sydd wedi'i gofrestru. Trowch at fapiau Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru — cronfa ddata ar-lein Cadw.[56]

Dylai unrhyw un sy'n gwneud gwaith adeiladu neu waith mawr arall sy'n golygu aflonyddu'r tir ddefnyddio Cof Cymru i gadarnhau nad oes henebion cofrestredig yn yr ardal lle byddwch yn gweithio.

Os gwelwch i ddifrod sydd heb ei awdurdodi gael ei wneud i'ch heneb gofrestredig, cysylltwch â Cadw a'r heddlu ar unwaith. Bydd Cadw yn ymchwilio i unrhyw adroddiad bod difrod wedi'i wneud i heneb gofrestredig. Lle profir bod difrod wedi'i wneud, bydd Cadw'n dweud wrth yr heddlu fydd yn cynnal eu hymchwiliad eu hunain i gasglu tystiolaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron ei hystyried. Gwasanaeth Erlyn y Goron fydd yn penderfynu a ddylid erlyn neu beidio.

Dirwy yw'r gosb am greu difrod neu ddinistr ond os cawsant eu gwneud yn fwriadol neu'n ddi-hid, gellid carcharu'r sawl sy'n euog.

O dan amgylchiadau eithriadol, bydd modd gofyn am gydsyniad ôl-weithredol er mwyn cael cadw gwaith heb ei awdurdodi. Mater fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda yw cydsyniad o'r fath. Yn ymarferol, dim ond mewn sefyllfaoedd lle mae'r gwaith o fudd i'r heneb y gall hynny ddigwydd.

Mae'n annhebygol iawn y gallai cydsyniad ôl-weithredol gael ei roi am waith a gafodd effaith negyddol ar heneb gofrestredig. Mae hynny'n golygu y gallech dal gael eich erlyn a/neu wynebu camau gorfodi, neu'r ddau, am wneud y gwaith. Yr un yw'r broses ymgeisio â'r honno am gydsyniad heneb gofrestredig.

3.10 Hysbysiadau Stop Dros Dro ¬

Os delir rhywun yn difrodi heneb gofrestredig, mae gan Cadw'r pŵer i roi hysbysiad stop dros dro iddo a fydd yn para hyd at 28 diwrnod.[57] Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Cadw'n gweithio gyda pherchennog yr heneb i ymchwilio i'r difrod a'i asesu, a chytuno ar blan i'w gywiro.

Os rhoddir hysbysiad stop dros dro ichi, rhaid ichi roi'r gorau i'r gwaith ar unwaith am y cyfnod a nodir ar yr hysbysiad. Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â hysbysiad stop dros dro, a gellir eich dirwyo am beidio. Byddai hynny'n ychwanegol at y drosedd wreiddiol o wneud gwaith heb ei awdurdodi.

Ar ôl i Cadw gynnal ei ymchwiliad, ond cyn diwedd cyfnod yr hysbysiad stop dros dro, gallai Cadw roi hysbysiad gorfodi ysgrifenedig. Bydd hwnnw'n nodi'r gwaith y bydd angen ei wneud i atgyweirio neu liniaru'r difrod ac i warchod yr heneb a'i gwneud yn sefydlog.

3.11 Hysbysiadau Gorfodi mewn perthynas â Henebion Cofrestredig ¬

Os oes gwaith heb ei awdurdodi wedi'i wneud sydd wedi difrodi heneb gofrestredig, gall Cadw roi hysbysiad gorfodi i'r perchennog neu'r bobl sy'n gyfrifol am y difrod.[58] Bydd yr hysbysiad gorfodi'n nodi'r hyn sydd angen ei wneud i atgyweirio'r difrod. Gallai hynny amrywio yn ôl natur yr heneb a'r math o ddifrod. Fel arfer, bydd yn cynnwys ymchwiliad archaeolegol i adfer a chofnodi tystiolaeth hanesyddol a naill ai sefydlogi neu adfer yr heneb i'w chyflwr gwreiddiol.

Os ydych yn cael hysbysiad gorfodi, bydd yn cynnwys amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith a bydd yn rhaid ichi gadw ati. Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad. Os na chymerir y camau gofynnol yn y cyfnod hwn, gallai Cadw ddewis gwneud y gwaith ei hun a chodi am y costau ar y perchennog.

Mae Cadw yn cyhoeddi'r holl hysbysiadau gorfodi y mae wedi'u rhoi mewn cysylltiad â henebion cofrestredig ar ei wefan.[59]

3.12 Pwerau Mynediad ¬

Gall Cadw neu asiant awdurdodedig ddod i archwilio'ch heneb gofrestredig ar unrhyw adeg resymol i:

- weld ei chyflwr
- gweld a oes gwaith heb ei awdurdodi wedi'i wneud ac a fu difrod cysylltiedig
- ystyried cais am gydsyniad heneb gofrestredig, neu newid neu ddirymu cydsyniad
- cadw golwg ar waith a ganiatawyd wrth iddo gael ei wneud ac ar ôl ei gwblhau, i wneud yn siŵr y cydymffurfir â'r amodau[60]
- archwilio a chofnodi unrhyw beth o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol y cafwyd hyd iddo wrth wneud y gwaith a ganiatawyd.

Gyda chaniatâd y perchennog a'r meddiannydd, caiff person sydd wedi'i awdurdodi gan Weinidogion Cymru godi a chynnal byrddau gwybodaeth a physt marcio ar neu wrth safle'r heneb gofrestredig i'w diogelu rhag difrod damweiniol neu fwriadol.

Atodiad 1 ¬

Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994[61] ¬

Gellir cynnal rhai mathau o waith heb fod angen gofyn am gydsyniad heneb gofrestredig. Caniatadau dosbarth yw'r enw a roddir iddynt ac rydym wedi'u rhestru isod. Nid yw hyn yn effeithio ar yr angen i gael cydsyniad dan ddeddfwriaeth arall.

Dosbarth	Wedi'i Ganiatáu	Heb ei Ganiatáu
Dosbarth 1 Gwaith amaethyddol, garddwrol a choedwigol	Gwaith amaethyddol, garddwrol a choedwigol o'r un math â'r rheini gafodd eu gwneud yn y lleoliad yn y cyfnod o chwe mlynedd yn union cyn dyddiad dechrau'r gwaith, ond heb gynnwys gwaith sy'n perthyn i un neu fwy o'r categorïau heb ei ganiatáu.	a) Tir wedi'i aredig — unrhyw waith sy'n debygol o aflonyddu pridd yn ddyfnach nag unrhyw waith aredig cyfreithiol a wnaed cyn hynny. b) Tir heb ei aredig — gwaith sy'n debygol o aflonyddu pridd o dan 300mm. c) Troi'r isbridd, gwaith draenio, plannu neu ddadwreiddio coed, perthi/gwrychoedd a llwyni, stripio'r uwchbridd, torri tyweirch masnachol, gwaith tipio. d) Dymchwel, symud, estyn, newid neu aflonyddu unrhyw adeilad, adeiledd neu waith neu ei olion. e) Codi unrhyw adeilad neu adeiledd. f) Gosod llwybrau, arwynebau caled neu sylfeini ar gyfer adeiladau, ffensys neu rwystrau eraill ac eithrio'r rheini ar gyfer garddio domestig.
Dosbarth 2 Gwaith gan Awdurdod Glo	Gwaith a wneir fwy na 10m o dan y ddaear gan Awdurdod Glo, neu o dan drwydded a roddwyd o dan Ddeddf Gwladoli'r Diwydiant Glo 1946.[62]	
Dosbarth 3 Gwaith gan Glandŵr Cymru	Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw i wneud yn siŵr bod camlas yn gweithio'n iawn, cyn belled nad yw'r gwaith yn golygu newid sylweddol i'r heneb gofrestredig.	Gwaith sy'n golygu newid sylweddol.

Dosbarth	Wedi'i Ganiatáu	Heb ei Ganiatáu
Dosbarth 4 Gwaith ar gyfer atgyweirio neu gynnal a chadw peiriannau	Atgyweirio a chynnal a chadw peiriannau cyn belled nad yw'r gwaith yn golygu newid sylweddol i'r heneb gofrestredig.	Gwaith sy'n golygu newid sylweddol.
Dosbarth 5 Gwaith sydd ei angen ar frys er lles iechyd a diogelwch	Gwaith brys cyn belled â'i fod: a) yn gyfyngedig i'r mesurau lleiaf sydd eu hangen ar unwaith b) hysbysiad ysgrifenedig i gyfiawnhau'r angen i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y medrir.	Gwaith wedi'i gynllunio nad oes ei angen ar frys i atal perygl i fywyd neu gorff.
Dosbarth 6 Gwaith gan Gomisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr	Ddim yn gymwys i Gymru.	
Dosbarth 7 Gwaith gwerthuso'r archaeoleg	Gwaith ymchwiliadol i'w gynnal gan neu dros berson sydd wedi gofyn am gydsyniad heneb gofrestredig: a) er mwyn darparu gwybodaeth at ddiben penderfynu ar y cais b) o dan oruchwyliaeth person sydd wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru c) yn unol â manyleb ysgrifenedig a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.	Unrhyw waith cloddio na ddisgrifir mohono yn y fanyleb ysgrifenedig.
Dosbarth 8 Gwaith a wnaed o dan delerau cytundeb rheoli â Gweinidogion Cymru	Gwaith diogelu neu gynnal a chadw, yn unol â thelerau cytundeb ysgrifenedig o dan adran 17 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.[63]	Unrhyw waith na ddisgrifir mohono yn nhelerau'r cytundeb rheoli.
Dosbarth 9 Gwaith a wnaed o dan delerau grant ariannu ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru	Gwaith diogelu, cynnal a chadw neu reoli, yn unol â thelerau cytundeb ysgrifenedig o dan adran 24 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.[64]	Unrhyw waith na ddisgrifir mohono yn nhelerau'r grant.
Dosbarth 10 Gwaith arolygu a wnaed gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru	Gosod marcwyr arolygu hyd at ddyfnder o 300mm ar gyfer arolwg wedi'i fesur o olion gweladwy.	

Atodiad 2 ¬

Gwerthoedd Treftadaeth ¬

Am ragor o wybodaeth am werthoedd ac arwyddocâd treftadaeth gweler *Egwyddorion Cadwraeth*.[65]

Gwerth fel Tystiolaeth

Dyma dystiolaeth ffisegol eich heneb gofrestredig — o beth y mae wedi'i wneud, ei ffurf, ei chynllun, ei golwg a'i lleoliad. Mae yna bethau all fod yn dystiolaeth o'r modd y cafodd ei hadeiladu, at ba ddiben, sut y cafodd ei defnyddio a sut y mae wedi newid dros y canrifoedd. Gall adfeilion ddangos arwyddion eu bod wedi'u difrodi a'u hailadeiladu; er enghraifft, defnyddio cerrig gwahanol neu ffenestri wedi'u hychwanegu neu eu cau, ac efallai fod tystiolaeth o ddifrod bwriadol.

Mae'r dystiolaeth ffisegol yn cynnwys olion archaeolegol dan ddaear. Er enghraifft, o dan dwmpathau pridd tomenni claddu cyn-hanesyddol, gallai fod yna siambrau cerrig gydag esgyrn neu olion wedi'u hamlosgi ynddyn nhw o hyd, ynghyd ag arteffactau fel potiau a oedd unwaith yn llawn offrwm bwyd a diod. O fewn adfeilion, gallai fod yna dystiolaeth o adeiladau cynharach o dan y ddaear neu rwbel lloriau sydd wedi cwympo a nenfydau sydd wedi dymchwel.

Mae rhai henebion cofrestredig wedi'u claddu'n llwyr, heb ddim yn weladwy uwchlaw'r ddaear. Gan ddibynnu ar eu natur, gallai fod metrau lawer o olion archaeolegol, yn enwedig os yw'r heneb mewn tref. Byddai adeiladau'n cael eu codi ar ben olion adeiladau cynharach dro ar ôl tro, neu gallai adeilad mawr fod wedi dymchwel a chael ei gladdu.

Gallai cynllun eich heneb gofrestredig adlewyrchu ei diben a'r ffordd y cafodd ei defnyddio. Er enghraifft, cafodd yr adeiladau mewn ceyrydd Rhufeinig eu gosod yn unol â chanllawiau milwrol ac mae gwaith cloddio ym mryngaerau'r Oes Haearn yn dangos bod rhannau gwahanol yn cael eu neilltuo ar gyfer adeiladau gwahanol fel tai a sguboriau.

Mae lleoliad eich heneb gofrestredig yn adlewyrchu'r dewisiadau a wnaed gan y bobl a'i hadeiladodd ac mae'n debygol o ymwneud â'i phwrpas. Efallai fod ffactorau fel amddiffyn, cysgod neu hygyrchedd yn bwysig. Efallai fod ei pherthynas â'r dirwedd neu'r tir o'i chwmpas hefyd yn bwysig ac yn ystyriaeth allweddol yn y system gynllunio (gweler adrannau 1.2 a 3.4).

Yn ogystal â'r heneb ei hun, bydd gwerth hefyd i dystiolaeth a geir mewn dogfennau sy'n ei disgrifio neu'i ei darlunio, ac mewn archifau archaeolegol a chasgliadau amgueddfeydd, gan gynnwys arteffactau o'r heneb. Byddan nhw oll yn ychwanegu at arwyddocâd yr heneb.

Gwerth Hanesyddol

Mae gwerth hanesyddol yn cysylltu pobl a digwyddiadau hanesyddol â'r presennol. Gall heneb gofrestredig ddangos agwedd benodol ar fywyd y gorffennol neu gallai fod yn gysylltiedig â theulu, person, digwyddiad neu fudiad penodol.

Mae rhai henebion cofrestredig yn gysylltiedig â dogfennau neu gofnodion hanesyddol, neu ymchwil neu ymchwiliad academaidd. Er enghraifft, mae'r cestyll a godwyd o dan orchymyn Edward I yn y drydedd

ganrif ar ddeg yn y Gogledd yn gysylltiedig â chorff mawr o gofnodion a ysgrifennwyd ar y pryd. Maen nhw'n cofnodi enwau'r bobl fu'n gweithio ar y cestyll, eu gwaith a'u tâl. Maen nhw'n ein helpu i ddeall y cestyll, yn arbennig sut yr oedd prosiectau adeiladu yn y canoloesoedd yn cael eu trefnu.

Gwerth Esthetig

Mae gan lawer i heneb gofrestredig apêl gweledol anferth. Gallai hynny fod yn gysylltiedig â'i ffurf neu ei golwg neu ei lle yn y dirwedd. Mae rhai henebion, yn enwedig y rheini ar fryniau, yn gallu cael eu gweld am filltiroedd; bydd rhai eraill yn nythu mewn cilfachau cysgodol. Gallai eu golwg heddiw fod yn ganlyniad i ddyluniad bwriadol yr adeiladwr neu'n ganlyniad damweiniol i'r ffordd y mae'r heneb wedi esblygu neu wedi cael ei defnyddio; neu gallai fod yn ganlyniad i'r ddau. Mynegir gwerth esthetig yn aml gan y ffordd y mae'r heneb wedi ysbrydoli pobl dros y blynyddoedd i greu darluniau, ffotograffau, cerddi a storïau.

Gwerth i'r Gymuned

Mae hyn yn golygu gwerth yr heneb gofrestredig i bobl heddiw a sut y mae'n cysylltu â phrofiad neu gof grŵp o bobl. Gall fod yn arwyddocâd coffaol neu symbolaidd, a gall fod cysylltiad â hunaniaeth genedlaethol. Er enghraifft, yn ogystal â bod yn ffin symbolaidd rhwng Cymru a Lloegr, mae Clawdd Offa yn llwybr pell y mae miloedd o gerddwyr yn ei ddilyn bob blwyddyn. Gall gwerth cymunedol yr heneb amrywio dros amser a rhwng pobl a grwpiau gwahanol.

Cyfeiriadau ¬

1 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ¬
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

2 *Polisi Cynllunio Cymru,* Llywodraeth Cymru¬
https://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

3 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol,* Llywodraeth Cymru, 2017¬
https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=cy

4 Gall y buddiannau hyn helpu i greu'r Gymru rydyn ni am ei gweld yn y dyfodol trwy gyfrannu at y nodau llesiant a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

5 Nid yw pob heneb o bwys cenedlaethol wedi'i chofrestru ac mae rhai'n dal heb eu darganfod ac felly'n amhosibl eu cofrestru ar hyn o bryd. Gallwch ddysgu mwy am gofrestru yn *Deall Henebion Cofrestredig* (i'w gyhoeddi). ¬

6 Mae'r meini prawf ar gyfer cofrestru henebion yn cael eu disgrifio yn *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol,* Atodiad A, Llywodraeth Cymru, 2017 ¬
https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=cy

7 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/contents fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh

8 Am ragor o wybodaeth am yr hyn y gellir ei gofrestru a sut y mae Cadw yn dewis ei safleoedd, gweler *Deall Henebion Cofrestredig* (i'w gyhoeddi). ¬

9 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ¬
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

10 *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ¬
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/scheduledmonuments/?lang=cy

11 Cof Cymru — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Caiff parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig eu hychwanegu at Cof Cymru yn 2018. ¬
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy

12 Mae Cadw yn cyhoeddi amrywiaeth o ddogfennau ar-lein ynghylch sut i ofalu am yr amgylchedd hanesyddol. ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/scheduledmonuments/?lang=cy

13 Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnig arweiniad defnyddiol ar lunio cynllun rheoli cadwraethol. ¬
https://cymraeg.hlf.org.uk/conservation-plan-guidance

14 Mae arbenigwyr cymwys yn cynnwys aelodau sefydliadau proffesiynol fel Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA), y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol (IHBC), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), penseiri cadwraeth (yn enwedig os yw'r olion ar wyneb y tir) a chyrff perthnasol eraill sydd â systemau cadwraeth achrededig. Gall CIfA Cymru neu'ch awdurdod cynllunio lleol gynnig rhestr ichi o bobl a sefydliadau addas. ¬

15 Mae llyfryn Cadw, *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, yn esbonio mwy am leoliad a'i gyfraniad at arwyddocâd eich heneb gofrestredig. Mae hefyd yn manylu ar y broses gynllunio ar gyfer materion y tu allan i ffin yr heneb gofrestredig. ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/scheduledmonuments/?lang=cy

16 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/newpublications/?lang=cy

17 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011, ymyriad archaeolegol, tudalennau 24–25 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

18 Mae Cadw yn cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau am ofalu am yr amgylchedd hanesyddol. I'w gweld, ewch i: ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/scheduledmonuments/?lang=cy

19 Cyfoeth Naturiol Cymru ¬
https://naturalresources.wales/?lang=cy

20 *Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed,* Llywodraeth Cymru, 1997 ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan10/?lang=cy

21 *Gofalu am Henebion Cofrestredig ar y Fferm,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, 2006 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/scheduledmonuments/?lang=cy

22 Gweler *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicuildings/?lang=cy

23 Bydd pobl broffesiynol â'r cymwysterau priodol yn aelodau o Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA) ac yn gweithio yn unol â safonau'r CIfA. ¬
www.archaeologists.net

24 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011, Ymyriad Archaeolegol, tudalennau 24–25 ¬
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

25 Mae pedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru yn casglu cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol, ac yn eu cadw'n gyfoes, ar ran Gweinidogion Cymru i'w defnyddio gan awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd. Mae Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn cael ei gadw fel archif cyhoeddus ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. ¬

26 Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) ¬
https://www.archaeologists.net/

27 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Ymyriad Archaeolegol, tudalennau 24–25, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

28 *Y Safon Genedlaethol a Chanllawiau Arfer Gorau ar gyfer Casglu ac Adneuo Archifau Archaeolegol yng Nghymru,* Panel Cenedlaethol ar gyfer Archifau Archaeolegol yng Nghymru, 2017 ¬
http://www.heritage-standards.org.uk/new-welsh-archaeological-archives-standard-2017/

29 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 42 (1) ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/42

30 Drysau Agored ¬
https://cadw.gov.wales/open-doors/?lang=cy
Gŵyl Archaeoleg Prydain
http://new.archaeologyuk.org/

31 Cynllun Taliad Sylfaenol ¬
https://beta.llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig

32 Trawsgydymffurfio a chadw tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da ¬
https://beta.llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig

33 Cynllun ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yw Glastir. Trwyddo, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi help ariannol i ffermwyr a rheolwyr tir. ¬
https://beta.llyw.cymru/glastir

34 https://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/sams/?lang=cy ¬

35 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 2 ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/2

36 Mae map y gallwch ei brintio sy'n dangos hyd a lled y safle cofrestredig o gwmpas eich heneb ar wefan Cof Cymru, ein cronfa ddata ar-lein o asedau hanesyddol cenedlaethol. Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy

37 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 2 ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/2

38 Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017 (OS 2017/642), rheoliadau 3 (2) i (4) ¬
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/642/made/welsh?view=plain

39 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 42 ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/42

40 Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1994/1381/contents/made

41 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/newpublications/?lang=cy

42 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 4.2, Llywodraeth Cymru, 2017 ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=cy

43 *Polisi Cynllunio Cymru,* Llywodraeth Cymru ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

44 Ffurflen gais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/schedmonconsent/?lang=cy

45 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/newpublications/?lang=cy

46 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 5 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/part/5/enacted/welsh a Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017 (OS 2017/642), rheoliadau 3 (2) i (4)
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/642/made/welsh?view

47 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 42 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/42

48 Gweler Fframwaith Ymchwil ar gyfer Archaeoleg Cymru ¬
http://www.archaeoleg.org.uk/wintro.html

49 *Nodyn Cyngor Technegol 24: yr Amgylchedd Hanesyddo*l, A.5, Llywodraeth Cymru, 2017 ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=cy

50 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, Atodlen 1, paragraff 3 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/schedule/1

51 Yr Arolygiaeth Gynllunio ¬
www.arolygiaethgynllunio.llyw.cymru

52 Bydd pobl broffesiynol â'r cymwysterau priodol yn aelodau o Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA) ac yn gweithio yn unol â safonau'r CIfA. ¬
www.archaeologists.net

53 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 7 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/7

54 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 2 ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/2

55 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 2 ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/2 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 2
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/part/2/enacted/welsh

56 Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy

57 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adrannau 9ZI trwy i L ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/part/I/crossheading/scheduled-monument-enforcement-notices fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 13
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/section/13/enacted/welsh

58 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adrannau 9ZC i H ¬
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/part/I/crossheading/scheduled-monument-enforcement-notices fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 12
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/section/12/enacted/welsh

59 Hysbysiadau statudol ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/policy/historicenvironmentbill/statutorynotices/?lang=cy

60 Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 6 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/6

61 Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1994/1381/contents/made

62 Deddf Gwladoli'r Diwydiant Glo 1946 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Geo6/9-10/59/contents

63 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 17 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/17

64 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 24 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/24

65 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

Rhagor o Wybodaeth ¬

Deddfwriaeth, Polisi Cynllunio a Chanllawiau

Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/contents

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/body/enacted/welsh

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Llywodraeth Cymru, 2017
https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=cy

Llawlyfr Rheoli Datblygu, Llywodraeth Cymru
http://gov.wales/topics/planning/policy/development–management–manual/?lang=cy

Canllawiau Arferion Gorau

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2011
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/newpublications/?lang=cy

Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicparksandgardens/?lang=cy

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicuildings/?lang=cy

Gwireddu Potensial Trafodaethau Cyn Ymgeisio, Llywodraeth Cymru, Canllaw Arferion, Mai 2012
https://beta.llyw.cymru/caniatad-cynllunio-trafodaethau-cyn-cyflwyno-cais

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/scheduledmonuments/?lang=cy

Safon Genedlaethol a Chanllawiau Arfer Gorau ar gyfer Casglu ac Adneuo Archifau Archaeolegol yng Nghymru, Panel Cenedlaethol Archifau Archaeolegol yng Nghymru, 2017
http://heritage-standards.org.uk/new-welsh-archaeological-archives-standard-2017/

UK Forestry Standard Guideline, Yr Amgylchedd Hanesyddol, Comisiwn Coedwigaeth, 2017
https://www.forestry.gov.uk/ukfs

Cynnal a Chadw a Chadwraeth

Mae Cadw yn cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau ynghylch sut i ofalu am yr amgylchedd hanesyddol. I'w gweld, ewch i:
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

Gofalu am Dreftadaeth yr Arfordir, Cadw: Historic Monuments Wales ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, 1999

Gofalu am Fryngaearau a Ffermdai, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, 2008

Gofalu am Ffermydd Coll, Cadw: Historic Monuments Wales ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, 2002

Gofalu am Safleoedd Milwrol yr Ugeinfed Ganrif, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru 2009

Gofalu am Henebion ar y Fferm, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, 2006

Gofalu am Henebion Angladdol a Defodol, Cadw: Historic Monuments Wales ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, 2005

Mae sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn cynnig cyngor ar sut i ofalu am henebion cofrestredig:
Historic England https://historicengland.org.uk/advice/technical-advice

Historic Environment Scotland https://www.historicenvironment.scot/advice-and-support/listing-scheduling-and-designations/scheduled-monuments/

Gwybodaeth Hanesyddol

Archifau Cymru — catalog ar-lein sy'n caniatáu ichi chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol mewn 21 o archifdai yng Nghymru. https://archifau.cymru/

Archwilio — cyswllt ar-lein â chofnodion amgylchedd hanesyddol pob un o awdurdodau lleol Cymru. Gellir hefyd weld yr wybodaeth a ddelir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.
https://www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

Coflein — catalog ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. www.coflein.gov.uk

Cof Cymru — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Caiff parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig eu hychwanegu at Cof Cymru yn 2018.
https://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy

Cynefin — adnodd ar-lein i chwilio mapiau degwm Cymru a'u mynegeion
https://lleoedd.llyfrgell.cymru/

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol.
www.historicwales.gov.uk

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol — yn cofnodi'r ffurfiau a'r sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffegol, cymunedau, ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodwyd mewn ffynonellau sy'n dyddio cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.
https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

Rhestr o Feysydd Brwydro Hanesyddol yng Nghymru — adnodd dehongli, addysgu ac ymchwilio. Mae dros 700 o frwydrau wedi'u rhestru, a chaiff ei newid a'i helaethu pan geir gwybodaeth newydd. .
http://meysyddbrwydro.cbhc.gov.uk/

Y Llyfrgell Genedlaethol — www.llgc.org.uk

Cysylltiadau ¬

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew, Unit 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Cardiff CF15 7QQ
Ffôn. 03000 256000
cadw@llyw.cymru
http://cadw.llyw.cymru

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU
Ffôn. 01970 621200
chc.cymru@cbhc.gov.uk
https://cbhc.gov.uk/

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru
chc.cymru@cbhc.gov.uk
http://www.coflein.gov.uk/cy

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn. 029 2082 3866
cymru@pins.gsi.gov.uk
https://beta.llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio

Awdurdodau Cynllunio Lleol
Cysylltwch â swyddogion cadwraeth, cynllunio ac archaeolegol awdurdodau cynllunio lleol trwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR
Ffôn. 01938 553670
trust@cpat.org.uk
http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE
Ffôn. 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
Ffôn. 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd Garth, Bangor LL57 2RT
Ffôn. 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA)
https://www.archaeologists.net/

Cyngor Archaeoleg Prydain (CBA)
http://new.archaeologyuk.org/

Y Sefydliad Diogelu Adeiladau Hanesyddol (IHBC)
http://www.ihbc.org.uk/

Cyfoeth Naturiol Cymru
d/o Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP
Ffôn. 0300 065 3000
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
http://naturalresources.wales/?lang=cy

Am wybodaeth drylwyr am:

- ddynodiadau cadwraeth natur allai effeithio ar henebion cofrestredig
- rhywogaethau a warchodir
- cymeriad y dirwedd allai fod yn rhan bwysig o leoliad parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig
- gwybodaeth ac arweiniad am goed.

Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA)
https://www.architecture.com/

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
https://www.rics.org/uk/

Dolenni o'r ddogfen hon

Lle gwelwch ddolenni i wefannau ac adnoddau a ddarperir gan drydydd parti, darperir y dolenni hynny er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r ffaith ein bod yn cynnig dolen yn golygu ein bod yn ei chymeradwyo. Nid oes gan Cadw reolaeth ar gynnwys nac argaeledd y tudalennau ac ni fydd yn gyfrifol am golled neu ddifrod allai ddigwydd o'u defnyddio.